

ECO'R WYDDFA

Rhif 191

MEHEFIN 1993

Pris 25c

CYFARFOD BLYNYDDOL YR ECO

NOS FERCHER, MEHEFIN 9fed
am 7.00 p.m.


YN YSGOL BRYNREFAIL

CROESO I BAWB I'R CYFARFOD PWYSIG HWN

TRI CHOPA

Dei wrth ei waith ar ben Eferest

Dei Tomos ydi cloc larwm llawer iawn ohonom mae'n debyg. Ei lais o dros y radio sy'n dweud wrthym ei bod yn amser codi a pharatoi at waith ac ysgol. Fel arfer o'r stiwdio ym Mangor y daw'r llais hwnnw, ond yn ddiweddar daeth y llais atom oddi ar fynydd ucha'r byd.



Treuliodd Dei dair wythnos yng ngolwg mynydd Eferest yn paratoi rhaglen deledu am ymdrechion pobl i gyrraedd y copa. Rhwir sylw i ymdrechion cynnar y 20au a'r 30au, ac i ymgyrchoedd y deugain mlynedd diwethaf ers i Edmund Hillary gyrraedd y copa yn 1953. Bydd Dei yn rhoi sylw arbennig i'r

Cymry hynny a fu'n rhan o'r gwahanol ymgyrchoedd. Wedi hedfan o Faes awyr Katmandu i Lukla, cerddodd Dei ac Alun Huws, a fagwyd wrth gwrs yn Llanberis, i 'base-camp' Eferest. Yno yr oedd Dei pan siaradodd R. Alun Evans ag ef dros y radio ar fore Gwener. Yr oedd yn amlwg yn gryn gamp i ddarlledu o'r fath le. Arhosodd Dei ac Alun yno am ddeuddydd yn ffilmio ac yn sgwrsio hefo'r criwiau oedd wedi cyrchu yno. Yr oedd rhyw bymtheg o wahanol dimau o ddringwyr yno ar y pryd yn ceisio cyrraedd brig y mynydd ar achlysur dathlu'r 40 mlynedd ers i Hillary a Tensing gyflawni'r gamp honno. Cyfarfu Dei ag ŵyr i'r Tensing enwog hwnnw. Cawn rywfaint o hanes y daith gan Dei ar dudalennau'r Eco y mis nesaf gobeithio.

Dysgu'r iaith wrth droed y Wyddfa

Mae merch ifanc a ddaeth i fyw ar lethrau'r Wyddfa yn Llanberis o Farnham yn Surrey bedair mlynedd yn ôl wedi cyrraedd copa mynydd arall. Daeth Lisa Wright i'r brig yng nghystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yng Ngwynedd eleni.

Yr oedd pump ymgeisydd, a chafodd pob un eu holi'n galed gan banel o feirniaid ym Mangor ar ddydd y gystadleuaeth ym mis Mai. Yn ystod Twmpath Dawns a gynhaliwyd y noson honno, cyhoeddwyd mai Lisa oedd yn fuddugol. Bydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r gogledd-orllewin yn y rownd derfynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst.

Yr oedd rhieni Lisa wedi ymgartrefu ar lethrau'r Wyddfa yn Crochendy ers rhyw flwyddyn cyn iddi hi hefyd symud i'r ardal. Treuliodd flwyddyn yng Ngholeg Gwynedd ym Mangor a bu'n gweithio'r un pryd yng Ngwesty Fictoria yn Llanberis. Dywed bod clywed y Gymraeg yno o ddydd i ddydd wedi gwneud iddi fod yn awyddus i ddysgu'r iaith.

Ers hynny mae Lisa wedi dilyn



cyrsiau dysgu Cymraeg, a bellach y mae yn rhugl yn yr iaith. Erbyn hyn, mae ar ei thrydedd blwyddyn yn y Coleg Normal.

Pan siaradom ni â Lisa yr oedd ar fin symud i fyw yng Nghapel Curig. Llongyfarchiadau iddi ar ennill y gystadleuaeth, a dymunwn yn dda iddi ar gyfer y rownd derfynol ym mis Awst.

HANES CYMRY AR EFEREST gyda DEI TOMOS

ar S4C Nos Wener, Mai 28
am 7.30 o'r gloch

Yn rhydd fel aderyn heibio Mont Blanc



Y mawr a'r bychan — Kevin yn hedfan gyda Mont Blanc yn gefndir syfrdanol.

Hedfan heibio i gopa'r mynydd y mae Kevin Evans o Fethel. 'Paragliding' y gamp ryfeddol honno sy'n codi dyn i'r entrychion, yw camp Kevin. Dechrau hedfan gyda 'hang-gliding' wnaeth Kevin, ond buan iawn y blinodd ar gario tua 70 pwys o offer i ben brynau a mynyddoedd Eryri. Gall bacio'r holl offer angenrheidiol ar gyfer y para-gliding mewn bag a'i gario ar ei gefn.

Dibynna'r gamp para-gliding ar gryfder y gwynt a 'thermals' yr aer poeth. Dan amgylchiadau ffafriol gellir esgyn hyd at fil o droedfeddi uwchlaw'r man cychwyn. Ni ddefnyddir math o beiriant, ond rheolir pob symudiad gan wifrau lmm o drwch. Rhaid wrth reolaeth lwyr ar ran y sawl sy'n hedfan, gan y gall newid sydyn yn yr aer beri iddo esgyn neu ddisgyn yn gyflym ofnadwy. Tra'n hedfan yn yr Alpau llwyddodd Kevin i gyrraedd uchder o 2525 metr. Ag yntau yng ngolwg Mont Blanc (gweler y llun) mae'n siŵr fod hyn yn brofiad gwefreiddiol. Teimla Kevin bod y profiadau haniaethol yma yn rhan allweddol o'r

gamp.

Yn lleol am Foel Lys neu Benmaen Bach bydd Kevin yn anelu. Pan fydd y gwynt o'r gogledd neu'r gogledd-ddwyrain yn cyfarfod â'r awelon oddi ar y môr yna ceir amgylchiadau delfrydol.

Nid yw Kevin yn ymddiddori yn y gamp er mwyn cystadlu, ond er mwyn perffeithio ei dechneg. Serch hynny, mae gan y bechgyn lleol awydd anelu at dorri record traws-gwlad Prydain. Yn ddiweddar llwyddodd John Sylvester (Dinorwig) i hedfan o Foel Eilio i Lanfair y Muallt — dim ond 96km!

Prif wefr y gamp yn ôl Kevin yw ymateb i sialens unrhyw broblem a gyfyd — yn enwedig o gofio mai ychydig iawn o rybudd a geir am newid tywydd. Gyrru lorïau ar hyd traffyrdd gorlawn Prydain yw gwaith Kevin, ac ar y penwythnosau gall anghofio'r mwg a'r sŵn gan edrych i lawr ar y llygredd daearol o ryddid ac iechyd yr awyr.

Yn St Helaire (Ffrainc) un tro profodd y wefr o gyd-hedfan gyda'r barcud du. Dyna beth yw rhyddid.

ECO'R WYDDFA

RHIF 191
MEHEFIN 1993

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(670115)

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWYR
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (674669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

Gareth Williams, Angorfa,
Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)

Tony Storey, Awel y Mynydd,
Ceunant, Llanrug (650600)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stad Tŷ
Hen, Waunfawr (650599)

TREFNYDD GWERTHIANT
Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr
Orsaf, Llanrug (675510)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(0248 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (673536)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (676733)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor, Nant Peris (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, GORFFENNAF 1
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MEHEFIN 21
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
GORFFENNAF AWST	GORFFENNAF 1	BETHEL	Mr Geraint Elis	(0248) 670726
MEDI	MEDI 9	—	—	—
HYDREF	MEDI 30	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
TACHWEDD	HYDREF 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
RHAGFYR	RHAGFYR 2	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
		LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034

Dymunaf ddiolch i'r cysylltwyr am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i fy nghynorthwyo i drefnu'r rota am y flwyddyn.

Llythyrau

Corau Rhyddid

Annwyl Olygydd,

Carwn fanteisio ar eich colofn lythyrau i ddod i gysylltiad â chyn gymaint ag sy'n bosib o gyn-aelodau corau Ysgol Ardudwy, Harlech, corau a oedd dan arweiniad Mr Rhyddid Williams, cyn-athro Cerdd yr ysgol.

Gobeithir trefnu aduniad (os bydd digon o ymateb) i rai fu'n aelodau o'r corau tra bu Mr Williams yn Ysgol Ardudwy, ddydd Sadwrn, Medi 11, 1993, yn Ysgol Ardudwy, Harlech, gyda'r bwriad o gynnal cyngerdd y noson honno, o dan arweiniad Mr Williams, gyda'r elw i fynd tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Meirionnydd 1994.

Bydd prydau bwyd wedi eu trefnu yn yr Ysgol, cinio a the (cost, oddeutu £12-£15). Ymgynnull yn y bore tua 11.00 i gael coffi a sgwrs cyn dechrau ymarfer.

Os oes rhai o'ch darllenwyr yn gyn-aelodau, neu yn gwybod am rai a fu'n aelodau, ac yn awyddus i ddod i'r aduniad, a wnant gysylltu â mi, gan anfon amlen barod er mwyn i mi gael cysylltu â hwy yn nes ymlaen. Fe hoffwn gael y wybodaeth yma ganddynt: (a) a ydynt angen bwyd llysieuol; (b) pa lais — soprano neu alto.

Fe hoffwn iddynt gysylltu â mi os yn bosib erbyn Gorffennaf 1af, er mwyn i mi symud ymlaen gyda'r trefniadau terfynol.

Yr eiddoch yn gywir,
BERYL WYN HUGHES
Llys Cerdd

Arthog, Gwynedd LL39 1AX
Ffôn: Fairbourne (0341) 250496

COFIWCH YR ENW!

Yr ydym yn falch o dderbyn deunydd i'w gyhoeddi yn yr Eco o fis i fis. Ond rhaid i ni bwysleisio na fedrwn ystyried cyhoeddi deunydd os na chawn enw a chyfeiriad yr awdur. Os dymuna'r awdur i'w enw/henw beidio ymddangos yn yr Eco, dylai nodi hynny, ond mae'n rhaid i'r golygyddion gael yr enw a'r cyfeiriad gyda phob llythyr a cherdd. Daliwch i sgwennu, a chofiwch yr enw!

Medal am 'gyrraedd'

Annwyl Olygydd,

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru Nedd a'r Cyffiniau 1994, yn falch i gyhoeddi manylion cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith.

Er bod y rhestr testunau bellach bron a'i chwblhau ar ôl oriau diwyd o bendroni a phenderfynu, dyma'r gystadleuaeth gyntaf o dros ddau gant o gystadlaethau i'w chyhoeddi ar gyfer gŵyl fawr 1994.

Bydd cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith Eisteddfod Nedd a'r Cyffiniau yn gofyn am gyfrol yn dwyn y teitl 'CYRRAEDD'. Cynigir gwobr ariannol o £500 ynghyd â medal i'r awdur buddugol. Mae'r wobwr yn rhodd gan Tom, Rosina, Lisa ac Iwan Davies er cof am Siwan.

Beirniad y gystadleuaeth fydd Marion Eames, Gwerfyl Pierce Jones ac R. Geraint Gruffydd, a dylid sicrhau fod y gwaith yn cyrraedd y beirniad erbyn Chwefror 1, 1994.

Bydd ffurflenni cais, ynghyd â rheolau ac amodau arbennig yr adran lenyddiaeth ar gael yn Rhestr Testunau yr Eisteddfod a fydd ar werth yn dilyn seremoni Cyhoeddi'r Eisteddfod ar y 3ydd o Orffennaf 1993.

Am fanylion pellach, cysyllter â:
Mererid Vaughan Jones
Swyddfa'r Eisteddfod
Y Ganolfan Ddinesig
Castell Nedd

Gorllewin Morgannwg SA11 3QZ
Ffôn: (0639) 639500

Camporiau BBC Cymru

Annwyl Olygydd,

Bob prynhawn dydd Sadwrn dros fisoedd yr haf fe fydd rhaglen 'Camporiau' ar Radio Cymru, yn rhoi sylwebaeth ar gemau criced Morgannwg, yn ogystal â sgysiau, eitemau amrywiol a cherddoriaeth.

Bydd cyfle yn ystod y rhaglen i hysbysebu digwyddiadau lleol — boed yn gemau criced, rygbi, pêl-droed, athletau neu weithgareddau i godi arian.

Anfonwch fanylion i'r cyfeiriad isod, neu ffoniwch ar (0222) 572775 ac fe soniwn am y gweithgaredd yn ystod y rhaglen.

Yr eiddoch yn gywir,
RICHARD OWEN
Cynhyrchydd Chwaraeon
BBC Cymru
Canolfan y BBC
Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ.

Help i'r Samariaid

Wyddech chi ei bod yn arferian gan Gyfeillion y Samariaid i gael siop ym Mangor am wythnos yn ystod yr haf?

Wyddech chi iddynt hefyd gael Sioe Ffasiwn lwyddiannus iawn yng Nglynllifon yn ddiweddar?

Wyddech chi fod diwrnodau banneri yn cymryd lle ar hyd a lled Gwynedd yn weddol gyson ynghyd â llawer digwyddiad arall?

Tybed a fedrwyd chi helpu i godi arian trwy gynnal rhyw weithgaredd, boed fach neu fawr, yn eich ardal chi?

Os felly, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Gyfeillion drwy ffonio Bethesda (0248) 602664.

Yn gywir iawn,
MARGARET PARRY

Llygad yr Haul
Penisarwaun
Caernarfon

Annwyl Gyfeillion,

Diolch i Etholwyr Llanddeiniolen

Llawer iawn o ddiolch i chwi am eich cefnogaeth a'ch croeso yn ystod y mis diwethaf. Yr oedd y croeso a dderbyniais gennych yn galondid mawr i mi.

Diolch yn fawr iawn.

Yn ddiffuant,
PAT LARSEN

Y CROESAIR

Os ydych am ennill gwobr am wneud croesair lfor Glyn Efans yn yr Eco mae'n well i chi frysio! Erbyn hyn mae lfor wedi llunio dros 40 o groeseiriau ar gyfer yr Eco. Bydd yn siom i lawer i ddeall felly mai croesai mis Gorffennaf fydd yr olaf y bydd lfor yn ei drefnu ar ein cyfer. Diolchwn iddo am ei waith cyson yn gofalu am y rhan arbennig yma o'r papur ers pedair mlynedd. Y mae Deio hefyd yn bwriadu rhoi'r gorau i anfon ei sylwadau crafog atom wedi'r rhifyn nesaf. Diolchwn iddo yntau am ei gyfraniadau rheolaidd i'r Eco.

Mae'n amlwg o'r ymateb a geir i'r croesair o fis i fis bod llawer yn mwynhau'r her o ddatrys y cliwiau. Mae angen rhywun i lunio'r croesair o rifyn Medi ymlaen. Beth am roi cynnig arni? Byddai'r golygyddion yn falch o glywed gennych. Neu wrth ddanfôn eich atebion at lfor y mis yma, beth am ddweud wrtho hefyd eich bod am gymryd ei le ym mis Medi!

IAC, TAC, TAS, a.y.y.b.

gan Deio

Onid ydym yn byw mewn oes o acronymiau dywedwch? Dyma ichwi bennawd sy'n cysylltu'r bydoedd amaethyddol, cyfryngol a'r addysgol. Yn wir, felly, dyna gysylltu gryn dipyn o weithwyr traddodiadol Cymru gyda rhyw eiriau gwneud bychan tair llythren neu fwy.

Holwch ryw amaethwr y dyddiau hyn a chlywir cymaint y mae'r ffermyr, yn enwedig yng Nghymru, yn cael eu rheoli'n ariannol gan ffurflenni sy'n pennu'r cymorthdal a geir o Ewrop ac o fannau eraill. Yn ôl pob tebyg, mae ffermydd y Gymuned yn cynhyrchu gormod o gig eidion yn ogystal a gormod o rawn, yd a chynnyrch o'r fath. Ar adeg ysgrifennu hyn o lith, yr hyn sy'n drist yw fod y Llywodraeth yn mynnu cadw at ddyddiad cau derbyn y ffurflenni ac ni wyddys ar hyn o bryd beth a ddigwydd os bydd camgymeriadau, boed rheiny'n fwriadol neu beidio. A chofiwch, mae bywoliaeth nifer helaeth o amaethwyr yn y fantol gyda'r biwrocratiaeth yma. Dyna ddagrau pethau onide! Gweithwyr cefn gwlad hynod gydwybodol yn llwyr ddibynnu am gymorth gan arall. Ofn mawr rhywun wrth gwrs yw bod y 'brawd mawr' yn gallu newid swm a roddir fel y dymuna. Bu i nifer o wŷr y tir y bŵm yn siarad â hwy'n ddiweddar fynegi'r farn yr hoffent weld pob cymorthdal yn cael eu ddiddymu gyda prhis y farchnad yn rheoli'n llwyr. Wel, nid yw honno'n gweithio pob tro chwaith yn anffodus.

Ond beth am hogiau a merched y cyfryngau wedyn? Gwelwyd Cynllun Datblygu newydd gan bennaeth newydd y BBC yn Lloegr yn ddiweddar ac nid yw'r rhagolygon, yn enwedig i ddarlledu Cymreig, yn edrych gystal ag a hoffai rhywun. Mae'n fy nharo weithiau fod unrhyw 'gynllun datblygu' yn ymdebygu i strategaeth i wario llai ac ennill mwy. Ond hwyrach mai'r elfen sinigaidd

ynof sy'n gyfrifol am feddyliau o'r fath.

Do, distawodd y miri, am y tro beth bynnag! Pa firi meddech? Wel, yr honiad hwnnw'n cysylltu ffafriaeth gan S4C tuag at gwmni adnoddau teledu Barcud a oedd yn eu tro yn llwytho arian i Arianrhod a oedd efallai'n trosglwyddo arian i goffrau Plaid Cymru. Nid fy lle i yw achub cam yr un o'r cwmnïau a enwir uchod gan y bu nifer o gyfamodwyr ag ati'n brys yn egluro fod yr honiadau'n ddisail. Nid oes gennyf ddigon o wybodaeth i farnu pa ochr sy'n dweud y gwir ond mae'n fy nharo'n od mai honiad o dan amodau Seneddol gan aelodau'r Blaid Lafur a ddechreuodd y miri. 'Mae eisiau ceiliog glân i ganu', meddai'r hen air ac mae rhywun yn cymryd yn ganiataol felly na fyddai'r Blaid Lafur yn dychmygu gweithio mewn dull o'r fath.

Tybed a fuoch yn perthyn i unrhyw Undeb Lafur erioed? Tybed a oedd cysylltiad ariannol yn bodoli rhwng yr undebau hynny a'r Blaid Lafur? Chwedl Ifas: 'Dydwi'n deud dim. Deud ydw i . . .' A lle mae'r Blaid Doriaidd yn cael ei chyfoeth wedyn? Dywedwch chwi wrthyf i.

Cyn cloi, mae'n siŵr eich bod wedi cael llond bol o glywed am y TAS'au bondigrybyll. Enghraifft arall o ryw acronym bychan di-nod yr olwg sydd gyda oblygiadau anferthol iddo. Gwir dweud fod pobl y wasg a'r cyfryngau wedi chwydu miloedd ar filoedd o eiriau am y sefyllfa ddiro'i'n ôl fel ag yr ymddengys ar hyn o bryd sy'n bodoli rhwng John Patten, yr Ysgrifennydd Addysg, a'r athrawon. Oes wir, fel y clywais ddweud sawl tro mae'r mochyn mewn perygl mawr o deneuo'n arw gan ei fod yn cael ei roi'n y glorian mor aml heb ganiatau iddo amser i fwyta a threulio'r bwyd hwnnw! Gwylied na fydd ieuencid ein hoes yn cael eu rhoi'n yr un sefyllfa!

ANTUR PADARN

Strategaeth ar gyfer y dyfodol



O'r chwith i'r dde: Glyn Tomos, Dr Liz Hughes, Dafydd Wigley, A.S., Emyr Tomos a Dr Delyth Morris, yn 'Fforwm Padarn 2000'.

Daeth cynrychiolwyr o sawl cymdeithas, mudiad ac awdurdod ynghyd i gyfarfod 'Fforwm Padarn 2000' a drefnwyd gan Antur Padarn yn Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis, ar fore Sadwrn, 15 Mai. Cadeirydd y cyfarfod oedd Glyn Tomos, Cadeirydd yr Antur, a'r siaradwyr oedd Dafydd Wigley, A.S.; Emyr Tomos, Is-gadeirydd Antur Padarn; Dr Delyth Morris, Coleg y Brifysgol, Bangor, a Dr Liz Hughes, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth.

Amlinellwyd gan bob siaradwr yr angen i sicrhau llais cymunedol cryf i wynebu'r newidiadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n

cymryd lle y dyddiau hyn. Pwysleiswyd mor bwysig yw sicrhau bod llais y bobl leol yn cael ei glywed — a'i weithredu — ac nid yn cael ei anwybyddu. Trafodwyd rôl Antur Padarn parthed y cymdeithasau lleol, a'r farn gyffredinol oedd mai gweithio mewn partneriaeth oedd y ffordd ymlaen. Bu'r cyfarfod hwn yn gam pendant a phositif iawn ymlaen tuag at wireddu hynny.

Diolchwyd i bawb am eu presenoldeb ac yn arbennig i Dr Dafydd Roberts a staff yr Amgueddfa am eu cydweithrediad parod.



Trafod prysur yn y Fforwm.

DRAENOG



Pan drefnir cystadlaethau yng nghlwb golff Caernarfon mae'n arferiad i'r gwrthwynebwyr nodi eu rhifau ffôn ar y ddalen — er mwyn cysylltu â'i gilydd i gwblhau'r trefniadau.

Gofynnodd un o'r ddau haciwr, sy'n athrawon yn Ysgol Brynrefail (yr un mawr) i'r llall (yr un hanner dall) i wneud nodyn o rif ffôn y gwrthwynebwyr y tro nesaf y byddai yn y clwb.

Hynny a wned. Ond, Och!, gan nad oedd ei sbectol ganddo, rhif ffôn 'y mawr' ei hun a roddwyd iddo'r diwrnod canlynol.

Dim ond hanner dwsin o weithiau fu'n rhaid i'r 'mawr' gael y lein yn 'engaged' cyn iddo sylweddoli fod rhywbeth yn gyfarwydd am y rhif!!

CYNGOR CYMDEITHAS LLANDDEINIOLEN

Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 1993-94 fydd Robert Hefin Williams o Rhiwlas. Mae Mr Williams yn enedigol o Ddeiniolen ac mae'n aelod dros Ward Rhiwlas ers 1991.

Is-gadeirydd y Cyngor fydd John Selwyn Williams o Frynrefail.

Penderfynodd y Cyngor anfon gair i ddiolch i aelodau Clwb Gwerin y Coed, Dinorwig, a phlant Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen, am iddynt wirfoddoli yn ddiweddar i dactluso gwely afon Caledffrwd. Trefnwyd y gweithgarwch hwn gyda Antur Padarn.

Mae pentrefi Deiniolen a Phenisa'rwaun eisoes wedi ffurfio pwyllgorau lleol ar gyfer codi arian tuag at Gronfa Haematoleg a Chymorth Cancer Gwynedd.

Mae seddau gwag yn Ward Deiniolen. Os oes rhywun â diddordeb i gynrychioli'r Ward ar y Cyngor anfonwch air neu cysylltwch â'r Clerc, Selwyn Griffith, Crud-yr-Awen, Penisa'rwaun.

ETHOLIAD CYNGOR SIR GWYNEDD

Yr un cynghorwyr sydd gennych ym mro'r Eco wedi'r Etholiad a gynhaliwyd ar Fai 6ed. Dychwelwyd Eurig Wyn (Plaid Cymru) yn ddiwrthwynebiad yn Ward Gwyrfa. Mrs Pat Larsen (Plaid Cymru) sy'n dal i gynrychioli Ward Llanddeiniolen; roedd ganddi hi fwyaf o bron 1,000 dros yr ymgeisydd arall, Christine Lofthouse (Llafur). Ac yn Ward Padarn, ailetholwyd Noel Davies (Plaid Cymru) wedi'r bleidlais rhyngddo ef a Keith Parry (Llafur). Llonyferchir y tri chynghorydd ar gael eu haillethol, a dymunir yn dda iddynt yn eu gwaith o gynrychioli eu hetholaethau ar y Cyngor Sir.

Swyddfa Antur Padarn

Cofiwch bod modd i chwi alw yn Amgueddfa'r Gogledd bob bore Gwener i gyfarfod â Robin Jones, Swyddog Datlybu Antur Padarn. Felly, beth am alw i drafod eich cynlluniau boed hynny ym myd busnes, cymdeithasol neu ddiwylliannol.

POB HWYLI!

Dymunwn yn dda i'r plant a'r ieuencid fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Gorseinon yr wythnos nesaf. Gobeithio'n fawr y byddant yn mwynhau eu hunain, ac y byddwn y mis nesaf yn llonyfarch rhai ohonynt am fod yn fuddugol.

AM DRO DRWY DERBY

(Bu rhai o Ddeiniolen, Llanberis a Nant Peris ar wyliau ym mis Mai gyda chwmni o ardal Colwyn dan arweiniad y Parchg Trefor Lewis, Hen Golwyn. Diolch am gael peth o'r hanes gan Mrs Margaret Cynfi Griffith.)

Daeth yn wanwyn eto a chyfle i griw bychan ohonom o fro'r Eco ymuno â Chwmni'r Pererinion sy'n cyrchu bob blwyddyn i rywle gwahanol yng Nghymru neu yn Lloegr. Dyma'r tro cyntaf i ni fod yn aros yn Lloegr am y pum niwrnod, er i ni ymweld â'r wlad y llynedd pan arhosom ni yng Nghaerdydd.

Swydd Derby oedd ein cyrchfan eleni, a buom yn aros mewn pentref bychan o'r enw Cromford, ger Matlock. Ond os bychan y pentref, roedd yr adeilad lle'r arhosom, Willersley Castle, yn anferth. Plas o dŷ a adeiladwyd tua dau can mlynedd yn ôl gan Richard Arkwright, y diwydiannwr, er na chafodd ef erioed fyw ynddo. Y lle wedi ei ddiweddarau'n llwyr ychydig o flynyddoedd yn ôl, yn foethus iawn, a'r bwyd yn ardderchog. Roeddem yn dechrau ac yn gorffen pob dydd gyda gwasanaeth byr; a thipyn o sioc i'r Saeson a arhosai yno oedd darganfod bod gan y Cymry eu hemynau eu hunain. Roeddent yn meddwl mai cyfieithiadau o'r Saesneg oeddynt i gyd.

Buom yn teithio'n eang; i Lincoln un diwrnod, i weld yr Eglwys Gadeiriol hardd, ac wrth fynd, cael

cyfle i weld y wlad ffrwythlon o'n cwrpas, caeau newydd eu haredig, neu yn llawn twf, rhai'n llawn o flodau mor felyn nes eich dallu yn yr haul, rhai â'r gwair wedi ei dorri'n barod.

Gwelsom blasty anferth Chatsworth, cartref Dug Dyfnaint, tŷ â rhannau ohono yn hen iawn. Gwelsom yr ystafelloedd lle bu Mary o'r Alban yn garcharor am amser, gwelsom drysorau di-ri, yn llestri cain, tapestria, lluniau olew, cerfiadau, ac yna allan i'r gerddi eang i fwynhau'r heulwen a hufen iâ.

Cawsom ymweld â phentrefi bychain fel Bakewell, cartref y teisennau enwog; Castleton, lle gwerthid y garreg Blue John a geid yn y creigiau gerllaw; a Tissington, lle'r addurnwyd ffynhonnau. Roedd y rhain yn werth eu gweld, yr addurno i gyd wedi ei wneud â dail ac â blodau, ac yn dangos golygfa o'r Beibl.

Wythnos i edrych yn ôl arni oherwydd y golygfeydd gwych, y cwmni diddan, a llawer i dro doniol a fu, ond barn pawb oedd, wrth i ni weld mynyddoedd Eryri yn agosau, na welsom ni ddim golygfa'n unman oedd yn rhagori ar yr olygfa hon.



Kevin a'i bac ar ei gefn yn barod am siwrnai 'nefolaid' arall — gweler y stori ar y dudalen flaen.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

DRAENOG



Bu ond y dim i griw o Gymry parchus gael eu hel o westy crand yn Lloegr yn ddiweddar. Gwraig o Ddeiniolen oedd ar fai — pan oedd pawb yn cysgu fe benderfynnodd hi fynd i'r bath. Ond! Fe darodd ddodrefnyn yn yr stafell molchi drosodd gan greu y sŵn mwyaf annaeol gan ddeffro pawb. Dychmygwch y pennawd yn y papurau lleol: 'Welsh Pilgrims sent packing'!

CRONFA GOFFA

R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda stamp a chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

John H. Hughes
Tan y Clogwyn

LLANBERIS, Gwynedd LL55 4LF

Ffôn: (0286) 871562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn Awst 31ain 1993. Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau penodedig.

Rhedwyr Ieuainc Eryri

Enillodd tîm o ferched yn cynrychioli Clwb Rhedwyr Eryri becampwriaeth traws-gwlad gogledd Cymru, a chyflwynodd y Clwg dlysau iddynt mewn noson wobrwyo yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Aelodau'r tîm oedd Rachel Jones, Elin Harding a Sarah Jones. Cafodd Gareth Jones dlws am ennill yr ail wobwr yng Nghynghrair Gwynedd a Chynghrair Glannau Dyfrdwy ac fe gyflwynwyd gwobr arbennig i Alun Vaughan am berfformiadau arbennig a sicrhodd iddo le yng ngharfan Cymru.

Yn y llun, o'r chwith yn y cefn, Rachel, Elin a Sarah; ac yn y blaen Alwyn Jones, Alun a Gareth.



SAIN CLIR O'R DIWEDD

Mewn rhifyn diweddar o'r Eco adroddwyd bod trosglwyddydd VHF newydd i fod i wasanaethu ardal Deiniolen a Llanberis cyn diwedd mis Mawrth. Yr oedd hynny'n newydd da i bawb oedd wedi arfer â chael trafferth i dderbyn rhaglenni Radio Cymru'n arbennig ar hyd y blynyddoedd. Yn anffodus bu oedi ynglŷn â'r mater, ond erbyn hyn mae'r trosglwyddydd yn gweithio. Ers Mai 20fed felly fe ddylai pobl yr ardal honno fod wedi gweld (neu glywed) gwahaniaeth yn ansawdd y derbyniad. Gobeithio bod gorfod symud y set radio i ryw un cornel fach o'r tŷ, a symud y deial bob pum munud er mwyn cadw'r sain yn weddol glir yn rywbeth y gallwn bellach anghofio amdano.

CYFARWYDDYD AR DIWNIO

Defnyddiwch y cyfarwyddiadau hyn i diwnio eich radio. Mae'r graddfeydd isod yn dangos lle pob gwasanaeth ar y deial:



**ECO'R
WYDDFA**

**COFIWCH
AM EIN**

**CYFARFOD
BLYNYDDOL**

Nos Fercher, Mehefin 9fed

am 7.00 o'r gloch

yn Ysgol Brynrefail

DOWCH YN LLU!

**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

'Un funud fach . . . ?

YNO O HYD

Mi fedra i weld y Wyddfa trwy ffenest i stydi yma. Wel o leia mi fydda i yn arfer ei gweld. Weithiau mae niwl yn ei chuddio oddi wrthyf. Ac erbyn hyn mae'r coed sy rhyngof â'r mynydd wedi magu dail ac yn creu mur trwchus sy'n cuddio'r mynydd o'm golwg. Ond os na allaf weld yr Wyddfa rwy'n reit siŵr ei bod yno o hyd.

Mae Duw yno o hyd. Mae wrth law bob amser a'i ofal amdanom yn fawr. Mae ei ddaioni yn cyrraedd atom bob dydd, a ninnau'n derbyn o'i gariad a'i fendithion, a'i nerth.

Ond ar brydiau gallwn deimlo ei fod wedi ei guddio oddi wrthym. Gall problemau a dioddefaint a siom beri nad ydym yn ymwybodol o'i gariad a'i ofal.

Mor bwysig yw gallu atgoffa'n hunain bryd hynny o'r hyn a wyddom amdano Ef. Roedd y Salmydd yn aml iawn yn gwneud hynny, yn dweud wrtho'i hun bod yr Arglwydd yn dda ac yn ffyddlon, yn ei atgoffa ei hun ei fod yn gwybod bod Duw yn ei garu, a'i fod yn siŵr o dderbyn ei nerth a'i gymorth.

Yn yr Arglwydd Iesu Grist fe welwn bod Duw yn ein caru ac yn llawn bwriadau da atom. Fe ddangosodd hynny trwy roi ei Fab i ddioddef trosom ar groes Calfaria. Mae'r efengyl yn cyflwyno ffeithiau clir i ni am Dduw a'i gymeriad. Wrth edrych ar yr Iesu, gallwn fod yn berffaith siŵr ynglŷn â sut un yw Duw. Gallwn fod yn siŵr bod Duw yn dda a ffeind ac yn llawn o gariad tuag atom, am ein bod wedi cael prawf o'r peth yn ei Fab.

Yng nghanol holl stormydd a phoen a dryswch bywyd ar adegau, mae'r sawl a welodd Duw trwy ei Fab Iesu yn gallu dwyn yr hyn a wyr amdano i gof. Hyd yn oes os yw'n methu'n glir â deall sut y gall rhai pethau fod yn digwydd iddo, ni all wadu nag anghofio bod y cyfan yn llaw y Duw a welodd yn Iesu Grist. Mae'r Duw hwn wrth law, a'i fwradau yn dda a doeth. Fe wyr y Cristion hyn yn ei feddwl a'i galon, a diolch am hynny, trwy ras, mae gobaith y gall ymddiried ynddo trwy'r cyfan. JOHN PRITCHARD

Cefnogwch ein Hysbysebwy

✠
**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Plaid Cymru: Trefnwyd Helfa Drysor lwyddiannus iawn gan Carys a Rolant Wynne yn ystod mis Mai. Yr enillwyr oedd: 1, Ifan a Helen Parry ac Einir Parri; 2, Deiniol a Heulwen Evans ac Urien. Enillwyd y raffl gan Lis Roberts. Mwynhawyd pryd blasus yn yr Anglesey Arms, Porthaethwy i ddiweddu'r noson.

Anfonwn gofion a dymuniadau am adferiad buan at Mrs Jean Davies, Rhyd y Delyn wedi ei thriniaeth yn yr ysbyty, ac at aelodau eraill sydd yn cwyno.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen nos Fercher, Mehefin 9, am 7.30 o'r gloch yn y Sefydliad Coffa, pan fyddwn yn trafod rhaglen y tymor nesaf yn y Cyfarfod Blyneddol. Gobeithiwn weld nifer deilwng o'r aelodau yn bresennol.

Brysiwch wella: Mrs Kathleen Hughes, Pant Afon, ar ôl torri ei braich; ac hefyd Mrs Jane Williams, Bryn Llan, ar ôl ymweld â'r ysbyty yn ddiweddar.

Trip yr Ysgol Sul: Bydd y trip yn mynd i Butlins ar ddydd Sadwrn, Mehefin 26. Pris mynediad gostyngol fydd £3.50 i oedolion a phlant, gyda tâl am y bws yn ychwanegol i'r oedolion. A fyddwch cystal a rhoi eich enwau a'r tâl erbyn Mai 30, i Mrs Meryl Green yr Arolygwr neu i unrhyw un o athrawon yr Ysgol Sul. **Diolch:** Dymuna Mrs Jean Davies, Rhyd-y-delyn, ddiolch o galon i'w theulu a'i holl ffrindiau am y cardiau, ymweliadau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd yn ystod ei gwaeledd. Hefyd mawr ddiolch i'r Gwasanaeth Ambiwylans ac ysbytai Dewi Sant a Llandudno. Gwerthfawrogi caredigrwydd pawb yn fawr iawn.

Ysgol Gynradd Llanrug: Enillwyd Clwb yr Ysgol am fis Mai gan Margaret Williams, Bryn, Cwm-y-glo; Sionwyn Morris, Fernlea, yn ail; Robin Williams, Tyddyn Ni yn drydydd; y pedwerydd oedd Ieuan Wyn, Bethesda a Nan Roberts o'r Waunfawr yn bumed.

Aeth plant blwyddyn 6 i lan Llyn Llydaw wrth droed yr Wyddfa i wneud gwaith maes fel rhan o waith thema'r tymor. Cafwyd diwrnod heulog — tywydd perffaith i wneud gwaith maes.

Bu blwyddyn 5 ar daith i Gastell Dolbadarn fel rhan o'u gwaith ar

Gestyll y tymor yma. Wedi ymweld â'r Castell cerddodd y dosbarth yn ôl i Lanrug dros Clegir gan ymweld â Chastel Bryn Bras ar y ffordd.

O Ben y Pas y dechreuodd taith blwyddyn 4. Dilynwyd taith Afon Seiont o Nant Peris i lawr i'r Aber yng Nghaernarfon. Cerddodd y dosbarth o bont Peblig i lawr am y cei gan fynd heibio Ysbyty Eryri, Parc Eryri a'r hen rheilffordd. Roedd y daith yn ddiweddglo ardderchog i'w thema y tymor diwethaf.

Fel clo i waith thema'r tymor diwethaf ar 'lythrennau' bu blwyddyn 3 yn ymweld ag Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy. Cafodd blwyddyn 1 a blwyddyn 2 fynd yno hefyd gan eu bod yn gwneud gwaith ar 'Ddoe a Heddiw'. Mae'r Amgueddfa yn darparu rhaglen diwrnod i'r plant, yn y bore buont yn 'ddisgyblion' ysgol yng nghyfnod oes Fictoria, lle cawsant y profiad o ysgrifennu ar lechen a gwisgo dillad y cyfnod. Yn y prynhawn ymwelwyd â Bwthyn Highgate, sef cartref Lloyd George. Bu'r plant yn coginio ar radell ar y tân, a chael cyfle i flasgu bywyd cartref yn oes Fictoria. Bu'r ymweliad o fudd mawr i'r tri dosbarth.

Cafodd plant y Dosbarth Derbyn dywydd arbennig o braf i fynd ar eu

trip i ymweld â'r Gwch Achub ym Miwmares, y traeth ym Mhenmon, a'r Sŵ Fôr ym Mrysincyn. Y môr yw eu thema am y tymor hwn.

Bu nifer o blant o flwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan mewn cyngerdd a drefnwyd gan Antur Padarn gyda'r ysgolion lleol yn cymryd rhan.

Yr Urdd: Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gefnogi'r Tombola yn ddiweddar er mwyn hel arian tuag at y gost i fynd a'r plant i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe. Cafwyd noson hwyliog a llwyddiannus iawn. Diolch yn arbennig hefyd i holl fusnesau'r pentref am eu cefnogaeth i yrru'r plant i'r eisteddfod. Fel y gwyddoch mae raffl wahanol yn y siop bob wythnos gan Meirwen Williams, Y Storfa. Dyma'r enillwyr — ffrwythau: Beryl y Post; tedi: Dion Owen, Bl. 3; blodau sych: Rhodri Williams, Bl. 5.

Ac yn olaf pob lwc i'r ddau barti dawns yn yr Eisteddfod ac i Elin a Sian yn y gystadleuaeth stepio. Hwyl fawr blant, dwi'n siŵr y bydd pobl y pentref yn gwrandao'n astud i weld os y daw llwyddiant eleni.

Merched y Wawr: Cynhelir Helfa Drysor ar nos Fawrth, Mehefin 8, gan gychwyn o giât gefn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch. Y dewis o fwyd ar ddiwedd yr Helfa yw — cyw iâr, lleden, lasagne verdi, lasagne llysieuol, gyda sglodion neu datws a llysiau neu salad am y pris o £4.25. Enwau ac archebion bywyd i Gwenda Roberts, Lleiflor (675649) erbyn dydd Iau, Mehefin 3.



Yr hogia sy'n mynychu cynllun hyfforddi pêl-droed Cyngor Arfon yn edmygu sgiliau Gavin Allen o Ddeiniolen sydd bellach ar lyfrau clwb Tranmere Rovers.



THE
SEIONT
MANOR
HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



HAMDDEN

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

Swper rhamantus i ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r teulu
Gwledd brodas fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd
Ymlacio ym mar y llyfrgell

CHWILOTA

DATHLU'R CANT



Mae Siop y Co-op yn Llanrug yn dathlu canrif o wasanaeth i'w chwsmeriaid. Does dim Côt ar ôl bellach yn Llanberis na Deiniolen, a'r hyn sy'n unigryw i'r siop yn Llanrug yw ei bod yn parhau'n uned annibynnol, ac yn parhau i dalu 'difi' blynyddol i'w haelodau. Ond rhaid cofio nad y siop bresennol sy'n dathlu'r cant, ac nid y gymdeithas sy'n dathlu'r cant chwaith. Mae canrif Llanrug yn cyfeirio at y dyddiad pryd y cofrestrwyd y Gymdeithas Gyd-weithredol gyntaf. Canrif 'swyddogol' yn unig sy'n cael ei ddathlu yn Llanrug, oherwydd mae gwreiddiau'r mudiad yn ymestyn yn ôl am tua hanner canrif ymhellach.

Mae'r mudiad cyd-weithredol yn perthyn i'r mudiadau cynharach a sefydlwyd gan y gweithwyr cyffredin i ofalu am eu cyd-weithwyr mewn cyfnod o ddiweithdra, analluedd a salwch. Yn eu plith mae'r Cymdeithasau Cyfeillgar, ac yr oedd nifer o'r rhain wedi eu sefydlu ym mro'r 'Eco' yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf. Mae rheolau Cymdeithasau Cyfeillgar Undeb Caernarfon (1829), Nant Padarn, Llanberis (1832) a Dinorwig (1835) ar gadw yn Llyfrgell Coleg y Brifysgol, Bangor. Yn sicr, roedd cymdeithas o'r fath yn bod yn Llanrug hefyd — wedi ei lleoli yn Tŷ Clwb (safle Siop Sglodion Tegfan, neu'r hen Siop Bren). Mae cyfeiriad yng Nghofrestrau Plwyf Llanrug at Thomas ac Ellen Williams yn byw yn Nhy'r Clwb yn 1835, 'gerllaw Capel mawr'. Chwarelwr oedd Thomas Williams wrth ei alwedigaeth, ond mae'n debyg mai ef oedd ysgrifennydd neu drysorydd y gymdeithas gyfeillgar. Mewn llawer o'r cymdeithasau hyn roedd lle i'r aelodau gyfarfod yn y 'Tŷ Clwb', ond nid oes tystiolaeth fod hynny'n wir yn achos Llanrug. Nodwedd arbennig rhai o'r cymdeithasau cyfeillgar hyn oedd y ffaith fod eu haelodau'n llwyr ymwrthod â'r ddiod feddwol, a gallai hynny fod yn wir am Lanrug, oherwydd roedd Cymdeithas Ddirwestol wedi ei sefydlu yno tua'r un pryd.

Cymdeithasau eraill o'r un naws oedd yr Odyddion (Oddfellows) gyda'u pencadlys ym Manceinion, ac

yr oedd sefydlu Banciau Cynilo yn ateb yr un pwrpas. Roedd tâl aelodaeth i'r fath gymdeithasau fel arfer tua £1, a'r aelodau wedyn yn cyfrannu ychydig geiniogau yr wythnos tuag at eu cynnal. Ond yn ogystal â thalu costau i'r aelodau mewn achosion o salwch, roedd defodau a gwisgoedd y cymdeithasau yn ychwanegu ychydig o liw i fywydau digon llwm yr aelodau. Roedd gorymdeithiau blynyddol yr aelodau yn disodli'r hen wyliau mabsant mewn llawer ardal, ac y mae'n sicr fod llawer o hwyl a rhialtwch yn perthyn i fartsio'r aelodau pan flaenrid hwy gan y bandiau pres cynnar.

Datblygodd nifer o'r Cymdeithasau Cyfeillgar hyn i ddod yn Gymdeithasau Cyd-weithredol. Y cyntaf i'w chofrestru dan Ddeddf y Cymdeithasau Cyfeillgar oedd y Rochdale Society of Equitable Pioneers yn 1844. Erbyn 1851 roedd tua 130 o Gymdeithasau Cyd-weithredol tebyg i un Rochdale wedi eu cofrestru. Yn 1862 roedd 450 ohonynt, ac erbyn 1875 roedd 1,266 gyda gwerthiant blynyddol o £13 miliwn. Hyd yn hyn, methais â darganfod pryd y daeth Cymdeithas Gyfeillgar 'Tŷ Clwb' Llanrug yn Gymdeithas Gydweithredol, ond yn amlwg roedd yn bodoli cyn dyddiad ei chofrestru. Parhaodd y Gymdeithas i weithredu o'r Tŷ Clwb am nifer o flynyddoedd wedyn, ac nid hyd fis Mai 1902 y prynwyd y llain tir lle'r adeiladwyd y siop bresennol.

Cofrestrwyd y 'Llanrug Cooperative Society Limited' dan Ddeddf Industrial and Provident Societies, 1893. Swyddfa gofrestredig y Gymdeithas oedd Tŷ Clwb, Llanrug, a'r ysgrifennydd oedd John Thomas, Brynffedwen Parc. Arwyddwyd y cofrestriad gan saith aelod arall o'r Gymdeithas, sef Thomas J. Lloyd, Bryneryr; Robert Griffiths, Disgwylfa Terrace; Owen Jones, Bryn Llan; Richard Hughes, Penisarhos; Thomas J. Griffith, Ddôl Helyg; William T. Lloyd, Snowdon View, a William Hughes, Pen Rhos Ddu.

Yn ystod y cyfnod cynnar hwn roedd Cymdeithas Llanrug eisoes wedi bod yn masnachu gyda'r Co-operative Wholesale Society, ond ni dderbyniwyd hwy'n llawn aelodau hyd 1904. Dyffryn Afan oedd yr unig Gymdeithas arall o Gymru i'w derbyn yn aelodau yr un amser â hwy. Roedd 120 o aelodau i Gymdeithas Llanrug ar y dyddiad hwn, yn cynrychioli 18 cyfranddaliad. Roedd dod yn aelodau o'r CWS yn amlwg wedi bod o fudd i'r siop. Yn y cyfnod cyn eu derbyn yn aelodau roedd cyfanswm gwerthiant nwyddau Llanrug yn £750 (a Llanberis yn £388). Yn y cyfnod yn union wedi ymaelodi, cynyddodd eu gwerthiant i £1,010 (Llanberis: £493). Bangor, Llandudno a Chyffordd Llandudno oedd yr unig dair Cymdeithas arall o Sir

Gaernarfon oedd yn aelodau ar y pryd (ac yr oedd gwerthiant Llanrug dipyn yn uwch na'r un yn Llandudno!).

Dymunaf ddiolch yn arbennig i Dylan Hughes, Rheolwr presennol y Co-op yn Llanrug, am gael benthg dogfennau perthnasol i'r cyfnod cynnar hwn yn hanes y Gymdeithas. yn anffodus, mae nifer o gofnodion wedi eu colli dros ganrif o amser. Os oes teuluoedd rhai o'r aelodau cynnar hyn yn gwybod peth o hanes sefydlu'r Gymdeithas byddai'n ddiddorol pe baent yn cysylltu â mi neu gyda Dylan yn y siop.

* * * *

Manion eraill y mis

Nodi yn unig fod gwybodaeth wedi derbyn ynglŷn â Glan Padarn: iddo farw yn Pwll Fannog ar lannau'r Fenai (cartref presennol Kyffin Williams). Deallaf hefyd fod llythyr ar ei ffordd o Dde Cymru gyda gwybodaeth am Bwll Batus yn Afon Goch, Llanberis, a theulu Congl y Mynydd.

Mae ceisiadau hefyd am wybodaeth ynglŷn â theulu'r Glasgoed, Llanddeiniolen, a theuluoedd Dolgynfynydd Isaf a Bodrual, Pontrug.

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu geisiadau i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (Ffôn: 0286 673515).

Datgelu Dirgelwch y Llun



Diolch am y wybodaeth a gafwyd am y llun a ymddangosodd yn rhifyn y mis diwethaf. Mae'n debyg bod ambell un wedi cael braw wrth sylweddoli ei fod yn ddigon hen i fod mewn llun 'o'r oes o'r blaen'. Yn ôl Huw Griffith tynnwyd y llun oddeutu 1970 yn Neuadd yr Eglwys yn Llanberis lle roedd y clwb ieuenticid a'r clwb codi pwysau yn arfer cyfarfod. Yn y cefn, o'r chwith: Reg Roberts, Mr Gordon Ward, Derlwyn Roberts, Keith Owen, Huw Griffith, Ted Pritchard, Gareth Vaughan Owen, Howyn Jones, Robin Owen Morris, Philip Owen a Gwynfor Owen. Yn y blaen, o'r chwith: John Pritchard, Michael Clark, Eifion Hughes, Alan Lloyd, Eilir Parry a Gareth Hughes. Rhyw gyfuniad o aelodau clwb codi pwysau a thimau pêl-droed 5-bob-ochr y clwb ieuenticid oedd yr hogia. Arferai'r clwb codi pwysau gyfarfod ar nos Lun a'r clwb ieuenticid ar nos Wener. Wrth weld y llun cafodd llawer eu hatgoffa am gymwynas y diweddar Gordon Ward a Philip Owen a roddodd gymaint o'u hamser a'u hegni i arwain y clwb ieuenticid am flynyddoedd pan oedd yr hogia yma yn aelodau ohono. Diolch i Robin am gael benthg y llun.

DRAENOG



Achoswyd cryn gynnwrf gan un o heddweision Llanberis (a

hwnnw'n un streipiedig!!) rhyw noson yn ddiweddar pan alwodd ynghyd bum car yr heddlu i ddelio â'r ffaith fod yr Wyddfa ar dân!

Lliw'r tân ddaeth i'w ruddiau yntau hefyd wedi iddo gael ar ddeall ei bod yn arferiad gan y dydd i wawrio, gyda'r haul yn codi dros gopa'r mynydd!



SIOP GREFFTAU
CAFFI
CANOLFAN GARDD

ANTUR WAUNFAWR

Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. – 3 p.m.
o Fai 1af

Galwch i weld ein cynnyrch arbennig

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Diolchiadau:

Dymuna Esyllt Môn Jones, Y Rhos, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau i gyd am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed.

Dymuna Manon Elis, Cilgeran, hefyd ddiolch i bawb am bob dymuniad da, rhoddion a'r cardiau a dderbynion hithau ar ei phen-blwydd yn 18 oed.

Plaid Cymru: Cynhelir yr Helfa Drysor ar nos Wener, 11 Mehefin. Bydd y daith yn cychwyn am 6.30 p.m. y tu allan i'r neuadd bentref. Er hwylustod i rieni a modurwyr bydd yr Helfa yn gorffen yn y Bedol! Croeso cynnes i aelodau a ffrindiau.

Ysgol Sul y Cysegr: Bydd trip yr Ysgol Sul eleni yn mynd i Butlins ar ddydd Sadwrn, Mehefin 26. Dylid rhoi enwau i fynd ar y trip i Mr Geraint Elis, Cilgeran, neu i un o athrawon yr Ysgol Sul mor fuan ag sydd modd os gwelwch yn dda. Y gost fydd £3 i blant yr Ysgol Sul a £5 i eraill.

Noson Pen Tymor: Nos Fawrth, Gorffennaf 6, yn y festri, cynhelir noson amrywiol i ddirwyn tymor yr Ysgol Sul i ben am eleni. Bydd eitemau amrywiol gan blant yr Ysgol Sul ac wedyn ceir paned a chyfle i brynu oddi ar y byrddau gwerthu a stondinau amrywiol. Bydd elw'r noson at Gŵn Tywys y Deillion. Croeso cynnes i bawb.

Pysgota dros Gymru: Mae Osgar Evans yn gapten tîm pysgota Cymru eleni. Yn ddiweddar bu Osgar yn pysgota dros ei wlad yn ardal Coventry. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddo ar yr anrhydedd o fod yn gapten y tîm.

Enillwyr Clwb 200 Neuadd Goffa Bethel am fis Ebrill — £20: M. D. Williams, Awelon, Erw Bian (174); £10: Joyce Pugh, 9 Tan-y-buarth (130); £5: Gwynfor Elis, 5 Rhos-lan (74); Ann Mercer, Roslyn, Tan-y-ffordd (165); Ceinwen Williams, Cefn Gwyn (51); Dafydd R. Davies, Ponciau, Llangefni (47); Jean Williams, Penlôn, Saron (2); Howel Owen, 18 Cremlyn (143); Valerie Jones, 16 Stad Eryri (112); Michael Elis, 9 Stad Eryri (178).

Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion: Caiff £240 ei drosglwyddo i'r elusen uchod mewn canlyniad i roddion a derbyniadau wrth y drws yn dilyn noson o Baned a Chân a gynhaliwyd yn y Cysegr. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth, ac yn arbennig i Barti Clychau'r Grug am ddiddanu, gan Arthur Rowlands, llywydd cangen Caernarfon o'r Gymdeithas, a Meurig Williams, y cadeirydd. Cafwyd disgrifiad byw gan John Owen, Penrhyn Bach, o'r ffordd y cafodd ef ei gyflwyno i'w gi tywys, Owi, sydd wedi bod yn 'lygaid' iddo am gymaint o flynyddoedd. Talwyd teyrnged uchel iawn ganddo i waith da yr elusen hon sydd yn llwyddo i sicrhau mwy o annibyniaeth i'r dall.

Yr Ysgol Feithrin: Cafodd plant yr Ysgol Feithrin ymwelydd annisgwyl yn ddiweddar pan ddaeth Mary Zampini de Palacio yno i'w gweld. Roedd Mary yno i weld sut mae ysgol feithrin yn gweithio fel rhan o'i chwrs yn y Coleg Normal, Bangor. Syndod i'r plant oedd cyfarfod â pherson hefo

enw mor anghyfarwydd yn siarad Cymraeg yn rhugl. Yr ateb, roedd Maria o dras y Cymry a ymfudodd i Batagonia, de America, dros 100 mlynedd yn ôl, ac yn byw yn y Gaiman. Gwelwyd llun o Mary gyda rhai o blant yr Ysgol Feithrin yn y rhifyn diwethaf o'r Eco.

Newyddion o'r Ysgol: Nos Fercher, Mai 12fed, bu côr yr ysgol yn rhan o gyngerdd a drefnwyd gan Antur Padarn yn Ysgol Brynrefail. Rwy'n siŵr fod pawb yno'n cytuno fod y plant wedi canu'n fendigedig ac wedi bod yn glod i'r ysgol a'r pentref yn eu perfformiad a'u hymddygiad. Diolch yn arbennig i Miss Lowri P. Roberts am eu hyfforddi ac i Mr Robin Jones am eu harwain.

Dydd Gwener, Mai 21, trefnwyd diwrnod o sesiynau hyfforddi pêldroed gan Gymdeithas Datblygu Chwaraeon Gogledd Cymru gyda Tony Williams a dau hyfforddwr yn yr ysgol.

Dydd Gwener, Mai 28, bu tîm nofio'r ysgol yn cymryd rhan yng Ngala Nofio Ysgolion yn y Ganolfan yng Nghaernarfon. Cawn fwy o fanylion am y Gala yn y rhifyn nesaf o'r Eco.


Enillwyr Clwb 100 am fis Mai — £20: Iolo W. Morgan, Tan-y-cae (10); £15: Enid Williams, Yr Efail (84); £10: Dorothy Williams, Bro Dirion (89); £5: Llinos Hughes, Glyn Trefor (29); £3: Gwilym Williams, 20 Y Ddôl (85). Diolch i bawb am gefnogi. Bydd y rhifau nesaf yn cael eu tynnu ddydd Llun, Mehefin 7fed.

Plygu'r Eco: Cofiwch mai ym Methel y bydd rhifyn Gorffennaf o'r Eco yn cael ei blygu. Taer erfynir ar i griw da ddod i'r Neuadd erbyn tua 6 o'r gloch ar nos lau, Gorffennaf 1, i helpu gyda'r gwaith — naill ai am y gyda'r nos neu am gyfnod o hanner awr o help. Y mwyaf a ddaw i helpu y lleiaf fydd y baich.

Yr Urdd: Dymuniadau gorau i'r tri pharti o'r gangen leol, sef dau barti adrodd ac un parti canu, fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe. Ceir adroddiad o unrhyw lwyddiant yn y rhifyn nesaf.

Cymanfa Ysgolion Sul: Dyma'r rhai o'r Cysegr a gafodd eu gwobrwyo — Nia Thomas, Fflur Angharad Hughes, Nia Glyn, Rhys Huws, Sioned Evans, Catrin Parry, Gwenno Roberts, Angharad P. Jones, Rhianwen Evans, Caryl Roberts, Meinir Hughes, Lois Huws, Ffion Williams, Emma Jones, Iwan Morris, manon Davies, Gwen Rowlands, Nia Catrin Jones, Gethin Jones, Aled Roberts, Gwenan Jones, Bethan Mair Jones, Owain Sion Williams, Arwyn Owen, Ifan Rowlands, Gwynfor Jones, Robin Gwyn Owen, Sioned Catrin Davies, Gerallt Dion Hughes, Delyth Morris, Anest Williams, Llinos Mair Williams, Meilyr Emrys, Dewi Griffith, Dyfan Elis, Dafydd Tomos Jones, Rhys Ll. Jones, Llinos Morris, Mrs Nora Parry, Miss Myfanwy Jones. Carai'r pwyllgor ddiolch i bawb am wneud y gymanfa yn llwyddiant, ac yn arbennig i swyddogion ac aelodau Brynrefail am eu cymorth. Ceir rhagor o fanylion yng ngholofn newyddion Brynrefail.

Cerdded ar budd elusennau: Yn ddiweddar cychwynnodd dau o'r pentref ar wyliau go anghyffredin, sef cerdded ar hyd Clawdd Offa sydd oddeutu 160 milltir i gyd. Beti a Seiriol Owen yw'r ddau ac fel aelodau o Gymdeithas Edward Llwyd byddant yn cael mwynhad a budd o'r Gwyliau. Maent hefyd wedi penderfynu cyfuno gwyliau a chodi arian at ddwy elusen, drwy gael eu noddi ar eu taith gerdded. Cŵn Tywys y Deillion yw elusen Bet a'r Ysgol Feithrin ym Methel fydd yn manteisio o daith Seiriol. I weld Bet a Seiriol Owen yn cychwyn ar eu taith daeth llun o blant yr Ysgol Feithrin, ynghyd â rhai oedolion, a Mr John Owen, Penrhyn Bach gyda'i gi tywys, Owi. Bellach mae'r ddau wedi cyrraedd yn ôl yn ddiogel, a phawb yn edrych ymlaen i glywed yr hanes. Ceir gwybod yn y rhifyn nesaf faint a gasglwyd i'r ddwy elusen.



John Owen, gyda'i gi tywys Owi, a Bet Owen.



Plant yr Ysgol Feithrin gyda John Owen, Owi'r ci, Bet a Seiriol.

'SPECIALS' BETHEL

Pwy 'di Pwy: Daeth gweld llun o heddlu arbennig, neu 'Specials' Bethel, ac atgofion i Goronwy Jones, Glan Gors. Fel hyn y mae Goronwy yn eu cofio, gan gychwyn yn y rhes flaen o'r chwith i'r dde:

1. Cwnstabl Hubert Roberts oedd plismon Bethel pan ddois i yma yn 1948. Yr oedd ganddo un ferch Heulwen ac yr oedd yn ffyddlon iawn i holl weithgareddau'r pentref.

2. Bob Parry oedd perchennog y siop yng ngwaelod Bethel, sef 'Treflyn Stores' heddiw. Roedd yn ŵr cymeradwy iawn ac yn fawr ei barch gan bawb. Yr oedd ganddo ddwy ferch ac maent yn byw yng ngogledd Lloegr, Newcastle dwi'n meddwl, ond mae Brenda am ddod yn ôl i Bethel cyn bo hir.

3. Glynne Jones, Corra Linn, prifathro ysgol ym Mangor. Cafodd ei urddo â'r O.B.E., neu'r M.B.E., am gasglu 'School Savings'. Mae ei briod yn byw yn Eithinog, Bangor, heddiw.

4. Owie Elis, Ysgoldy, Gof yn chwarel Dinorwig ac ef oedd pennaeth yr efail yn y Gilfach Ddu. Meddai ar lais tenor hyfryd ac yr oedd yn aelod selog o gôr Dilys Wynne yng Nghaernarfon am flynyddoedd lawer.

5. William Jones, Erw Ffynnonydd — 'Wil Dre' i bobol Bethel. Bu am flynyddoedd yn borter yn Ysbyty Gallt-y-sil, Caernarfon.

6. Harry Harrison, Cartref. Gweithiai i'r Cyngor Sir. Bu ef a'i briod yn cadw siop chips yn Saron ond y cof gorau sy' gen i amdano oedd pan yn gofalu am yr Y.M.C.A.

7. John Owen, Ty'n R'ardd — 'Jack Owen Dreifar' fel yr oedd yn cael ei alw gan hogia'r chwarel. Yr oedd yn

arddwr medrus a thwt ac yr oedd hefyd yn dipyn o ffermwr gan iddo gadw buwch a llo neu ddau.

8. Richard Hughes — 'Dick Tŷ Cefn' i bobol Rhiwlas, gan mai yn Siop Uchaf Rhiwlas yr wyf yn ei gofio'n byw. Chwarelwr wrth ei alwedigaeth yn Chwarel Bethesda. Byddai'n dod i weithio i Parciau Rhos bob dydd Sadwrn yn y cyfnod y bŵm i yno. Mae ei briod yn dal i fyw yn yr un tŷ yn Rhiwlas.

9. Llewelyn Roberts — 'Llew Post' y'i galwyd gan fod ei briod, Anti Cein, yn cadw'r Post yn Saron. Collodd ei iechyd a bu farw yn ddyn ifanc.

10. Robert Jones — 'Robin Foty Llanberis' fel yr oedd pawb yn ei adnabod. Bu'n fugail yn y Foty am flynyddoedd ond bu yn byw yn 2 Tan-y-ffordd ym Methel adeg y Rhyfel. Mae ei ferch, Alys, yn byw yn Bron Meillion, Bethel, heddiw.

11. Griffith Elis Jones, Blaen Parc — 'Guto El' dyna ei gelwid gan bawb a'i adnabu. Chwarelwr — ac yn chwarelwr profiadol iawn hefyd. Yn enedigol o Ddeiniolen ac wedi priodi fe ddaeth i fyw i Flaen Parc ac yno mae ei ferch, Elizabeth E. Evans, yn dal i fyw heddiw.

12. Caradoc A. Evans, Parciau Rhos. Ffermwr wrth ei alwedigaeth. Daeth i Parciau Rhos tua yr un flwyddyn ac y daeth J. O. Pierce i Tŷ Mawr. Bu yn gwerthu llefrith am flynyddoedd yn Ninas Bangor ac yr oedd yn ŵr cymeradwy iawn ac yn barod i helpu pawb. Mae ei ferch, Ceri, yn dal i fyw yn y cartref ac mae Helen, y ferch arall, yn byw yn ardal Penmynydd, Môn.

O Siambar Selwyn

*Gwn ei ddyfod fis y mêl
Gyda'i firi, gyda'i flodau,
Gyda dydd fy ngeni innau —
Gwyn fy myd bob tro y dêl.*

Dyna fel y canodd Eifion Wyn i fis Mai. *Gwyn fy myd bob tro y dêl?* Fel un o hogia mis Mai, ys gwn i? . . . a minnau bellach wedi cyrraedd oed pensiwn. Ac os o gryfder ymhen pum mlynedd, mi fydda i wedi cyrraedd oed yr addewid. Bobol bach, tydi amser yn fflio!

Mae'r dam papur holl bwysig sydd yn fy meddiant yn tystio i mi ddod i'r hen fyd 'ma yn gynnar ar y 19eg o Fai 1928. Digwyddodd gwrth y geni yn Gwynfryn, Bethel, taith-deud-adnod o gapel yr Annibynwyr. Dwi'n cofio dim am y diwrnod mawr hwnnw yn fy hanes, ond synnw i ddim na ches i frecwast yn fy ngwely y bore hwnnw.

Yn ôl pob hanes mi fuo na gryn dipyn o helynt ynglŷn â pha enw i roi arnai. Tua mis cyn i mi wlychu fy nghlwt cynta' roedd Taid Ty'n Pwll (tad fy nhad) wedi chwythu ei anadl ola. Griffith Griffith oedd ei enw — enw dwbl-baril, a 'doedd byw na marw gan deulu Ty'n Pwll na dyna beth ddylai fy enw i fod — er parchus goffadwriaeth am Taid.

'Doedd mam ddim yn or-hoff o'r syniad. O bosib roedd hi wedi rhagweld y byddai'r ddwy lythren gynta' o Griffith Griffith, sef yr 'G.G.' yn mynd yn 'Ji-Ji' ac y byddai cyfoedion direidus fy mhleentyndod o fewn dim o amser yn cael hwyl drwy fy nghysylltu â cheffyl.

Fodd bynnag, o fewn ychydig ddyddiau i lein ddillad Gwynfryn chwifio baneri gwyn o glytiau glân i ddangos fy nyfodiad yn yr hen fyd 'ma — daeth 'Nel Bach Bryn' i longyfarch mam ac i roi cusan o groeso i minnau reit siŵr. Un o deulu enwog Bryntirion oedd Miss Elen Griffith (i roi enw parchus arni) teulu a roes fwy nag un o weinodigion ar Eglwys Bethel — rhai fel y Parchedigion David Griffith ac R. W. Griffith.

Gan i mi gael fy ngeni ar Wyl y Sulgwyn, wrth ffarwelio â mam dywedodd Nel Bach Bryn — 'Cael ei eni ar y Sulgwyn — wel wir, bendith arnoch chi, a sêl wen fyddo ar eich bywyd chitha hefyd.'

A dyna sut y ces i fy ngalw yn Selwyn — enw a oedd y pryd hynny yn un pur anghyffredin. Ond mi fynnodd teulu Ty'n Pwll gael eu ffordd eu hunain hefyd, ac fe fracedwyd yr enw Selwyn rhwng y

ddau Griffith. Felly, fy enw swyddogol i ar fy nhystysgrif geni ydi, Griffith Selwyn Griffith. Deallaf i deulu Ty'n Pwll fod yn bur styfnig ar y dechrau a mynnu cyfeirio ata i fel Griffith, a llwyr anwybyddu'r Selwyn. Tydi'n hawdd pechu teulu deudwch — ys gwn i faint ohonoch chi gafodd drafferthion ynglŷn â'ch enwau?

Ta waeth, unwaith bob deng mlynedd y bydda i yn arddel fy enw swyddogol, a hynny o reidrwydd, pan ddaw hi'n amser codi trwydded teithio (passport) newydd. Roedd hi'n draddodiad yn yr hen ddyddiau i blant gael eu henwi ar ôl eu teidiau a'u neiniau er parch i'w hynafiaid. Sori, Taid, wnes i ddim cario ymlaen hefo'r hen draddodiad.

Gan mod i wedi sôn am fy nyddiau cynnar waeth i mi sôn am y fuddugoliaeth gynta' a ddaeth i'm rhan i, er nad wy'n cofio dim am yr achlysur. Ond rwy'n siŵr i'r ysfa i gystadlu gael ei phlannu ynof yn gynnar iawn oherwydd hyn.

Mae gen i brawf o'm llwyddiant. Mae gen i focs o lwyau te arian na ddefnyddiwyd mohonyr nhw 'rioed. Yn y bocs mae 'na gerdyn, ac arno y geiriau: *'1st prize for the best baby fed on Nestles Milk.* Hefyd yn yr un bocs, mae 'na doriad o'r papur lleol sy'n profi i mi gael y wobr gynta' yn Siou Fabanod y Felinheli.

Na, dydw i'n cofio dim am y diwrnod buddugoliaethus hwnnw, ond mi allai ddychmygu'r wên ar wyneb mam a'r llawenydd yn ei chalon wrth iddi fy rowlio i adre yn y pram o'r Felinheli i Fethel, ac mi allai ddychmygu'r cawodydd o gusanau fu'n peltio arnai am i mi ddod a ffasiwn anrhydedd i'r teulu.

Ia, y pawns hwnnw yn Siou Fabanod y Felinheli y plannwyd yr ysfa'r gystadlu ynof.

'Presented to Selwyn Griffith' sydd ar y cerdyn yn y bocs llwyau te. Dim sôn am Griffith Selwyn Griffith.

Do, mi gafodd mam ddwy fuddugoliaeth y pawns hwnnw 'ar lannau Menai dlawd'.

* * * *

Na, mae'n ddrwg gen i fedrai ddim cytuno ag Eifion Wyn bellach, *'gwyn fy myd bob tro y dêl'* — mae mwy o fisoedd Mai wedi mynd nag sydd i ddod. Serch hynny mi gytunai â Dafydd ap Gwilym —

Mynnwn pe nef a'i mynnai

Pe'i deuddeng mis fu mis Mai.

Mae'n fore braf heddiw 'ma . . . mi biciai i'r post i godi 'mhensiwn am wn i.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Enillwyr Clwb 300 mis Ebrill — £40: Siôn A. Jones, Penrhos; £25: I. Bracegirdle, 2 Bro Waun; £10: Ceri Owens, 12 Croesywaun.

Diolchiadau:

Dymuna Alan a Heather, Hafoty, Cwm-y-glo, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeith eu merch fach Ffion Wyn.

Dymuna Anne Addisson, Storfa Tŷ Newydd, ddiolch i'w ffrindiau i gyd am y caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Dymuna Llinos, John, Bethan, Gareth ac Alun, ddiolch i'w ffrindiau a'u cymdogion am yr holl anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant pan yn ymadael a'r Waun. Bydd croeso cynnes yn eich aros yn Nolgellau. Dymunwn pob hapusrwydd ichi yn eich cartref newydd yn Nolgellau.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion cynnes at Eira, Llwyn Celyn a Kristy, Cynefin, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, ac hefyd Mr John Elwyn Roberts, Glaslyn.

Croeso adref o'r Ysbyty i Mr Glyn Williams, Tref Eilian; Mr J. Sprott, Gwynllys. Anfonwn ein cofion at amryw o drigolion y pentref sydd wedi bod yn cwyno yn ddiweddar, gan obeithio y byddant yn teimlo'n well yn fuan.

Damweiniau: Anafodd Dylan, Tref Eilian, ei fraich mewn damwain beic yn ddiweddar, a bu Aled Rhys, Pen-y-graig, yn hynod o anlwus a thorri ei goes pan syrthiodd — ac yntau yn aelod o'r parti cân actol sy'n mynd i Eisteddfod yr Urdd yn Abertawe. Brysiwch wella y ddau ohonoch.

Profedigaeth: Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Mrs J. Price, Tref Eilian, a fu farw yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dathlu **Pen-blwydd:** Longyfarchiadau i Alaw Jones, Rhandir Mwyn, ar gyrraedd ei deunaw oed. Pob dymuniad da iti i'r dyfodol.

Eisteddfod Waunfawr: Os oes yna unrhyw berson ifanc dros 16 oed â diddordeb i fod ar bwyllgor yr Eisteddfod mae croeso iddynt ffonio'r ysgrifennydd, Glenys Williams ar 650360. Cynhelir Noson Goffi yn y Neuadd ar nos Wener, Mehefin 25, er budd yr Eisteddfod. **Priodas:** Yng Nghapel Penueil, Bangor, yn ddiweddar priodwyd Dylan Wyn a Branwen, Dolmeini. Longyfarchiadau a phob dymuniad da ichi.

Llwyddiant Eisteddfodol: Mae Meira, Alun ac Wmffra yn mwynhau 'mynd o 'Steddfod i 'Steddfod' ac mae'r tri

wedi cael llawer o lwyddiannau yn ddiweddar — longyfarchiadau ichi.

Longyfarchwn Ffion Edwards, Melin-y-Wig ar ennill y gadair yng nghystadlaeth ei blwyddyn, sef blwyddyn 3, yn Eisteddfod Ysgol Syr Huw Owen. Longyfarchiadau i holl ddisgyblion y pentref a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod.

Daeth tymor yr haf yn ei dro unwaith eto a gydag ef fe ddaeth cyfnod yr arholiadau bondigrybwl. Dymunwn yn dda i'r holl ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau ysgol a choleg. **Diolch:** Dymuna gweithgor yr Eglwys ddiolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r Noson Goffi a gynhaliwyd yn yr Eglwys.

Llwyddiant **Cerddorol:** Longyfarchiadau i Sioned Jones, Cynant Lodge, ar lwyddo yng Ngradd 1, arholiad piano.

Yr Urdd: Dymuna pwyllgor yr Urdd a rhieni'r plant sydd yn y parti cân actol ddiolch i bawb o'r pentref a gyfrannodd ac a gefnogodd y noson arbennig a gynhaliwyd i godi arian tuag at y gost i fynd i Abertawe. (Mae lle ar y bws os oes rhywun eisiau mynd i'r Eisteddfod am ddiwrnod.) Diolch i Dylan a Neil am gymryd rhan. Dymunwn pob hwyl i'r plant a mwynhewch eich hunain.

Y Gymdeithas Lenyddol: Bydd gwibdaith fin nos y Gymdeithas ar nos Lun, Mehefin 8, yn cychwyn o'r Llythyrdy am 5.15 p.m. gan ymweld ag ardal Llanystumdwy, gan gynnwys Amgueddfa a beddrod Lloyd George. Yna ceir pryd o fwyd mewn gwesty cyfagos. Fe all rhai nad ydynt yn aelodau o'r Gymdeithas ddod ar y trip ond rhoi eu henwau i Mr Stanley Williams, Cefn Coed, ar unwaith; y gost am y cyfan yw £6 y pen, gan nodi a'i cyw iâr, pysgodyn (plaice), lasange, salad neu bryd llysieuol fyddant angen.

Mewn cyfarfod o bwyllgor y Gymdeithas hysbyswyd mai Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan, fydd trefnydd y Gymdeithas y tymor nesaf a Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt, yn drysorydd, i olynu Rol Williams a Stanley Williams sydd yn ymddeol wedi naw mlynedd gyda'r gwaith.

BARBECIWR YR ANTUR

NOS SADWRN, MEHEFIN 19
am 6 o'r gloch
yng Ngerddi'r Antur.

Bydd digon o fwyd blasus i bawb.

Dewch yn llu.

Noson i'r teulu.

**MODURDY
PLAS
BACH**

CAEATHRO
Ffôn: C'fon 672072

Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)


Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch
cartref yn ardal Llanrug

BARRY'S GLASS

- am Ffenestri a Drysau UPVC • Estimates am ddim
- Gwydr a gwydro o bob maint • Ffenestri Gwydr Dwbl
- Gwasanaeth bordio a gwydro 24 awr.



Y PRISIAU GORAU — GARANTID!

CAMELOT, PENISARWAUN
871144 (Dydd) 871774 (nos)

... ac nid oes dim newydd dan yr haul

Catherine Booth gwraig enwog iawn ym Myddin yr Iachawdwriaeth a ddyfynodd y geiriau, 'Men have always lived in modern days', a da fyddai i ni gofio hyn, yn enwedig pan mae'r 'modern days' yn cael eu beio am bopeth — dim gwaith, dim arian, dim byd i'w wneud, sydd yn ei dro yn rhoi hawl i rai yn ein mysg i wneud beth a fyddant. Drwg weithredu, ac atal parch at bobl a'u meddiannau.

Wrth gwrs mae diweithdra, prinder arian, a gwacter ysbryd yn bethau difrifol iawn, ond nid ydynt yn newydd. Ni raid mynd ymhell iawn yn ôl i gofio dyddiau tebyg; ond nid oedd yr un drwg weithredu, a diffyg parch, ond yr oedd y fath beth â chywilydd yn bod. 'Roedd mwy yn mynychu'r capeli a'r eglwysi, ac er fod condemnio haeddiannol ar y sefydliadau hyn, tybed a oedd bod yn swm y pethau yn ddylanwad da?

Dyma eiriau allan o'r llyfryn bach 'O Ddydd i Ddydd' i ddwyn i gof beth sydd gan Eglwys Dduw i'w gynnig: 'Tasg Gair Duw, yw bod yn gyfarwyddwr moesol ac ysbrydol i ni. Mae'n ein dysgu ni i garu rhyddid, i garu cyd-ddyn, i garu ac edmygu'r hyn sy'n ardderchog, yn hytrach na'r hyn sy'n effeithiol neu'n ddigonol yn unig. Yr ydym i gyd yn derbyn bod angen hyfforddiant arbennig ar gyfer bod yn athronydd, athro neu fabolgampwr. Yn yr un modd y mae hyfforddiant arbennig yn y Gair ar gyfer y sawl sy'n arbenigo mewn sancteiddrwydd. Mae'n cynnwys bron i bob agwedd ar fywyd, cerdded, bwyta, gorffwys, gweithio, y mae pob rhan yn cael ei ddisgyblu, ac y mae pob rhan yn cyfrannu at y nod, sef iechyd a phrydferthwch ysbrydol.

'Eithr nid yw'r hyfforddiant hwn yn gosod pobl dan straen emosiynol neu gorfforol a thensiwn. Nid mater o ddyn yn gyrru ei hun i'r eithaf mohoni yn gymaint a chaniatáu i'r Gair ddangos ein gwendidau a'n brychau moesol i ni, ac yna cyflwyno meddyginiaethau'r Gwaredwr ei hun i ni, wedi eu llunio'n ofalus, i gwrdd â'n hanghenion penodol.'

Onid yw'r cyfan yn 'fodern' o gofio am yr holl sôn am straen a thensiwn ein dyddiau ni? Ac eto ysgrifennwyd y geiriau gan Clements, pennaeth ysgol hyfforddi yn Alexandria, bron i ddeunaw canrif yn ôl.

ENID GRISDALE

Enidon, Ffordd Bethel, Caernarfon.

W.J.GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: 870440

Croeso i Ted a Beverley Anwyl o Ddeiniolen sydd wedi dod i fyw i 3 Bro Glyder. Gobeithio yr ymgartrefant yn hapus yma.

Croeso adref i Dei Tomos, Ty'n Twll, ar ôl iddo fod yn 'Base Camp' mynydd Everest yn yr Himalaia am dair wythnos.

Gwellhad: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Annie Griffith, 5 Bro Glyder, sydd wedi bod yn yr ysbty yn ddiweddar. Yr un yw'n dymuniad i bawb sydd heb fwynhau iechyd rhy dda yn ddiweddar.

Diolch i Elwyn Searell Jones am iddo ymgymryd â gwaith gohebydd Nant Peris. Diolch hefyd i Mrs Ann Fleming am ei gwaith hi dros y blynyddoedd — Gol.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU
Cangen Deiniolen a'r Cylch

CYMANFA GANU

a gynhelir yng
NGHAPEL M.C. BRYNREFAIL
yng nghwmni
CÔR MEIBION
DINAS BANGOR

Arweinydd: James Griffiths
Cyfeillydd: Lowri Prys Roberts

NOS SUL, MEHEFIN 29ain
am 6 o'r gloch

CROESO CYNNES I BAWB



Diolch i Mr Bob Hughes am y llun hwn o chwarelwyr Ponc Pen Garet yn Chwarel Dinorwig oddeutu 1923. Mr Hughes yw'r ail o'r chwith yn y rhes ôl.

Rhes ôl (o'r chwith i'r dde): Johnny Daniel Williams; Robin Hughes; Huw Jones; Martin Owen; Hugh Cae'r Foel; Wil Waun; Jack Morris.

Ail res: Wil John, Ceunant; Ifor Green, Penisarwaun; Wil Owen, Bethel; Thomas Jones, Kings Head, Clwt-y-bont; Evan Ellis, Deiniolen; Now Hughes (Cali); Dafydd Jones, Parc, Deiniolen.

Drydedd rhes: John Evans, Deiniolen; Jack Williams, Clwt-y-bont; O. H. Jones, Deiniolen; Richard Jones, Nant Peris; Johnny Owen, Brynrefail; John Roberts, Trysgol, Llanberis; Dick Evan Pritchard, Penisarwaun; (?).

Rhes flaen: (?); Jonathan, Cwm-y-glo; Huw Jones, Dinorwig; John Thomas, Deiniolen; Evan Deiniol, Deiniolen; Wil Samuel, Cwm-y-glo; (?).

Os oes rhywun yn cofio pwy yw'r tri arall na all ef eu henwi, anfonwch air at Mr Bob Hughes yn Dalar Deg, 7 Lôn y Meillion, Eithinog, Bangor, Gwynedd LL57 2LE.

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn:

Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m.
bob diwrnod

Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

**Cyfle i ennill £10 bob wythnos
i bawb sy'n prynu petrol**

NAVELETTE

gan Y GWALCH

Roeddwn i wedi ffansio rhyw hogan — wel hogan medda fi — roedd hi'n ddynas yn ei man. Adfarteisio roedd hi yn y *Lonely Hearts and Tarts*, ac yr oedd hi'n awyddus i roi'r argraff nad oedd hi ond ychydig oria tros hannar cant ac yn dal yn ifanc yn ei symudiadau a'i golygon. Doedd hi ddim awydd dyn hefo *halitosis*, o'r un o'r ddau ben, ac yr oedd hi isio boi lanky; mae nhw i gyd isio dynion tal. Mae'n siŵr ei fod o'n arbediad mewn prynu steps.

Ond doedd 'na fawr o gip arni. Roedd hi wedi bod on view ers wythnosa, ond reading between the lines, doedd hi ddim yn fyr o'r wherewithall, a hynny wnaeth i mi gymryd ati hi.

Er mwyn bod ar y safe side cyn i mi anfon ati, mi es am consultation (peth ffasiynol i'w wneud) at genod y Coparet. Mae nhw'n essence of discretion ac wedi arfar trin hen ddynion. Beth oedd yn fy mhoeni i oedd lle i gael yr assignation.

'Mi fydd yn well iddo fo fod yn lle prominent,' medda'r genod. 'Peidiwch â mynd i ganol rhyw lwyni, rhag ofn iddi hi gael yr impression eich bod chi am ei assaultio hi.'

'Y fi!' medda fi yn reit siort.

'Rhyw hen ddynion run fath a chi ydy'r gwaetha yn amal,' medda nhw. Ar ôl chwarter canrif o fasnacha solat, fuo ddim nes i mi fynd â fy nhicad o'r Coparet. 'A pheth arall,' medda nhw wedyn, 'Fasa ddim gwell i chi fynd at y doctor?'

'I be?' medda fi, 'Dydwn i ddim yn sâl.'

'Ella byddwch chi,' medda nhwtha dan grechwenau.

Ac mi gymerais fy mherswadio. Ond erbyn hynny roeddwn i wedi anfon at y ddynas i drefnu ei chyfarfod hi o dan Lloyd George ar bnawn dydd Sadwrn, ac i ddangos fy mod i'n dipyn o withiter, dyma fi'n taflu dipyn o'r phrases patois 'ma i mewn, sy'n de rigueur erbyn hyn hefo'r fanatics sydd yn mynd i roi international flavour i'r iaith fel y medar pawb yn yr EEC gael crap arni heb resort i'r OED chwedol as they say nhwtha.

Beth bynnag, pan es i at y doctor dyma fo'n deud wrtha i am dynnu amdana, ac mi cynhyrfodd hynny fi yn fwy na'r ddynas. Mi rydw i'n gysetyl hefo dangos fy hun os na fydd gen i facintosh. Beth bynnag dyna lle roeddwn ni yn tynnu un ymhob pen i fy ngwllan goch i, ond

mi fynnod ei chael hi oddi arna i yn y diwedd. Ond rhaid i mi ddeud; roedd o'n thorough. Ar ôl edrach oedd fy lwod i'n streilio yn iawn dyma fo'n checkio fy mhenblaen i rhag ofn ei fod o wedi disgyn i'r gwaelod run fath â phwysa cloc mawr. Wrth gwrs mi rydw i'n gwybod fod fy mhwsa taro i wedi bod yn lot llaesach na'r llall ers blynnyddoedd. Wedyn dyma fo'n rhedag ei fod i'r hyd fy mol i.

'Mi rydych chi yn un go sownd am ferchad yn tydach?' medda fo fel 'na mwya sydyn.

'Duwcs, sut ydych chi'n medru deud?' medda fi.

'Ma'ch bogal chi wedi sincio,' medda fo.

Wel os yr oeddwn i'n groen iâr cynt roeddwn i'n groen clagwydd wedyn. 'Ydy o'n beth peryg?' medda fi.

'Ydy a nag ydy,' medda fo. 'Os yr arhosith o lle mae o mi fyddwch yn iawn, ond os yr eith o yn is . . . tuasa fo ddim ond yn cyffwrdd asgwrn ych cefn chi mi ewch fel diffodd cannyll.'

'Fedrwyd chi roi rhywbath i mi ato fo?' medda fi.

'Mi wna i bapur i chi,' medda fo dan sgwennu.

Wrth fynd allan pwy welais i ond Elin Huws, Nel Bol Camal chwedol nhwtha. 'Wyddwn i ddim dy fod ti'n cwyno,' medda hi.

'Chwilio am rhywun i swabio iau hefo fi mae o,' medda fi. 'Fedri di ddim gneud heb dy un di debyg?' Mi roth hynny daw arni i mi gael dŵad allan.

Pan es i â'r papur i'r siop gemist, roedd yna rhyw hogan bach reit ddel reit glên yn y fan honno, a rhyw farclod cwta ganddi hi, ddigon â rhynnu'ch meddwl chi oddi ar bils. 'Nid yma ydych chi i fod i ddŵad â hwn,' medda hi fel'na. 'Mae'r ironmonger yn gneud lot o'n prescriptions ni rŵan. Triwch yn y fan honno.'

Ond fedris i ddim mynd ar fy union, achos chydig o amsar oedd gen i wrth gefn cyn mynd i gyfarfod y ddynas, ac yr oeddwn i wedi gwisgo amdana yn reit dwt a blacio fy sgidia, ac yr oedd gen i fotwm gŵr ifanc yn fy nghôt.

Wrth i mi ruthro allan o'r siop mi es ar fy mhen i rhyw hen wraig yn y drws. Dyma hi'n spio arna i. 'Sut wyt ti ers talwm?' medda hi fel'na dan rythu arna i. 'Wyt ti ddim yn fy nabod i? Mi ddylat, a ninna wedi

bod yn hen gariadon.' A dyma fi'n sylu arni fel boi pop mewn rave wedi cael gormod o gaws llyffant hefo'i grac — positively stupified.

'Gwen wyt ti dwad?' medda fi yn y diwedd.

'Dyna chdi. Be' wyt ti wedi bod yn neud hefo chdi dy hun ar hyd yr holl flynyddoedd 'ma?'

Doedd dim angan gofyn iddi hi beth oedd hi wedi bod yn neud, yr hen garpan — mynd yn hen. Wedyn dyma hi'n deud ei bod hi yn byw mewn rhyw fflat yng ngwaelod y dre ac yn dechra mawlganu am y sunsets oedd hi'n weld tros yr afon a rhyw gallimaufry felly. 'Pam na ddoi di ata i i de rhyw ddiwrnod?' medda hi yn y diwedd.

'Gwen bach,' medda fi, ever so gentle like. 'Fedri di ddim troi'r cloc yn ei ôl,' ac erbyn hyn yr oeddwn ni wedi mynd i weiddi ar ein gilydd, achos roedd yna rhyw griw run fath â'r Ancient Britons ar y meincia rheiny tu allan, ac yr oedd y cyfarfod gweddi Zombies ganddyn nhw yn mynd full throttle tros y lle.

'Sut mae nhw'n medru diodda'r sŵn yna?' medda Gwen.

'Sgynyn nhw ddim dewis wyddost ti. Tasa hwnna yn diestewi,' medda fi, 'Mi fasan yn taflu eu hunan tros Bont Borth fesul y cannoedd, ac mi fasa'r Jew yn bankrupt. Mae o wedi canfod eu gwendid nhw. Mae nhw ofn dau beth fel gŵr â chledda: tywyllwch a distawrwydd. Mae 'na ffortiwn mewn sŵn a gola. Rho di ddrym neu gorn bands i blentyn 'Dolig, mi elli di gael guarantee o cacophany solat tan y New Year beth bynnag, os nad y 'Dolig wedyn. Y Welsh Culture 'ma ydy o ysti. Big stuff erbyn hyn. Holl alluog dduw y Natives: "Llond pop lle . . . presennol ym-mhop man . . ."

Ond dyma Gwen yn gweiddi ar eu traws nhw. 'Tasa ti'n dŵad i de, ella basa ni'n medru ei ail weindio fo —

y cloc dwi'n feddwl.'

Wn i ddim beth faswn i wedi ddeud am hynny oni bai iddi fynd yn ei blaen i ddeud, 'Madda i mi: I must dash. Mi rydw i'n cyfarfod rhyw gentleman o dan Lloyd George y pnawn 'ma. Dim iws bod yn hwyr. Mae'r first impressions yn bwysig wyddost ti. Very nice to see you and all that.' A ffwrdd â hi. A dyma finna yn gneud vanishing trick am yr ironmonger yn oer ac yn boeth bob yn ail.

Roedd yna ddyn clên yn y fan honno hefyd. Ar ôl edrach ar fy mhapur i, dyma fo'n estyn blwch mawr glas o ryw silff a'i roi o ar y cowntar, ac yr oeddwn i'n meddwl os yr oedd o'n llawn o bils, nad oedd y dyn yn disgwyl i mi fendio am rhyw bymthag mlynadd. 'Beth sy'n yno fo?' medda fi.

'Tydan ni ddim i fod i ddeud wrthach chi hefo papur doctor,' medda fo fel yna. 'Mae'r directions tu mewn iddo fo.'

Pan es i adra 'i agor o, beth oedd ynddo fo ond powlan rubber a choes bren yn sownd wrthi, ac ar rhyw dicad bach roedd y geiria: 'To be used after meals or as required'.

But I didn't see the gweled am yn hir, ond mae'n rhaid i chi ddeud fod y medical proffesion 'ma yn advanced — too clever by half. Beth oeddach chi'n neud erbyn deall oedd rhoi'r bowlan rubber 'ma ar eich bogal a rhoi plwc ar y goes bren, ac yr oedd o'n sugno'ch bogal chi yn ôl i'w le. Ond serch hynny, mi rydw i wedi canfod gwendid yn yr holl arrangement, definitely te. Fedrwyd chi ddim bod yn hollol sicr y gwnaiff y rubber ollwng ei afael bob tro. And it's always when you are in most of a hurry wrth gwrs. A tydy bogal inside out ddim mymryn llai poenus nac un wedi sincio. Take your pick dear boy. It can be agony Ivy, believe me.

ERIC JONES

PENISARWAUN

Ffôn: 872421

PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

- ★ Prisiau rhesymol
- ★ Spreio tu mewn a thu allan
- ★ Estimates am ddim

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR



Dewis eang o Welyau Sengl a Dwbl.
Dewis eang o '3 Piece Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler' Gwaith Contract.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 650291

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Trefniadau Blodau Sych

a Ffres yn ôl eich gofyn

Alwyn a Sarah Jones

RACCA

PENISARWAUN

- ★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
- ★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
- ★ Blodau ar gyfer angladdau
- ★ Stoc o flodau ffres



Galwch neu ffoniwch
870605
am fanylion

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Cronfa Haematoleg a Chymorth Cancr Gwynedd: Daeth nifer dda i'r Ystafell Gymunedol ar nos Fercher, Mai 5ed, er lansio'r apêl. Etholwyd Phyllis Ellis yn Gadeirydd; Margaret Williams, Carrog, yw'r Ysgrifennydd ac Ann Paterson fel Trysorydd. Trefnir Noson Goffi ddechrau Gorffennaf a bwriedir dod o amgylch y pentref i gasglu tuag at y Gronfa.

Eisteddfod Bentref — Mehefin 25ain: Cynhelir yr Eisteddfod am y tro cyntaf yn y Neuadd Gymunedol am 6 p.m. Y beirniaid fydd Llên ac Adrodd: Mr John Huw Hughes, Llanberis; Cerdd: Mr Edward Morus Jones, Llandegfan; Gwaith llaw a Choginio: Mrs Jane Pierce, Llanddeiniolen; Arlunio: Mr Alan Ginsberg. Y llywydd fydd Mrs Alice E. Williams, Caernarfon. Y mae'r rhaglenni eisoes ar werth gan aelodau'r pwyllgor. Dymunir pob llwyddiant i'r Eisteddfod arbennig hon.

Gwellhad: Balch ydym o ddeall fod Josua, mab bychan Barry a Gwenda Jones, a brawd bach Gavin, 2 Tai'r Bwrthyn, wedi cael dod adref o'r ysbyty.

Anfonir cofion annwyl at Mrs Eluned Porter, Llys y Gwynt, sydd wedi bod yn yr ysbyty eto y mis hwn. A phwy bynnag sy'n sâl yn y pentref, anfonwn ein cofion annwyl atoch gan ddymuno adferiad iechyd buan.

Genedigaeth: Croeso cynnes i Ifan Huw, mab bychan a anwyd i Gwen a Wyn Griffith, Tai Arthur, Waun, a brawd bach i Sioned. Pob bendith i chwi fel teulu.

Ysgol Sul Bosra: Bu'r dewis o drip eleni yn amrywiol a diddorol — o Alton Towers i Disneyland! Wedi ychydig o berswâd, fe gytunwyd ar le delfrydol — gobeithio!

Ac mi a glywais lais yn dywedyd,
'I ble eleni yr awn ni
Ar drip yr Ysgol Sul?'
Ateb hefyd a glywais
Fel sŵn llawer iawn o bobol
Yn rhoi un gri fyddarol,
'BLACKPOOL!'

Gobeithio y bydd y tywydd yn braf fore Sadwrn, Gorffennaf 3ydd i gychwyn am 7.30 a.m. Pris: £6 i oedolion; £3 i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Enwau ac arian rhag blaen i Elizabeth Jones, Llanberis 872421.

Casglwyr Prysur: Llongyfarchiadau i bawb a gasglodd mor haelionus tuag

at y Genhadaeth Dramor. Cyfraniad Bosra oedd yr un mwyaf anrhydeddus eleni, yng Nghymanfa'r Methodistiaid ym Mangor.

Cystadlaethau 5-bob-ochr: Nosweithiau iau a Gwener, mwynhaodd aelodau Ysgolion Sul Bosra ac Eglwys Santes Helen gystadlaethau pêl-droed i Ysgolion Sul, yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon. Diolchir i'r caredigion a gludodd y plant.



Mathew Philips, Tai Arthur — 'Mascot' Clwb Pêl-droed Wrecsam.

Mascot Wrecsam: Dydd Sadwrn, Mai 8fed, cafodd Mathew Philips brofiad bythgofiadwy. Dewiswyd ef yn 'fascot' Clwb Pêl-droed Wrecsam a hynny yng ngêm olaf y tymor yn y Drydedd Adran yn erbyn Colchester. Ie, diwrnod i'w gofio ar y Cae Ras gyda Wrecsam yn ennill 4-3. Mae'n rhaid mai'r 'mascot' o Benisarwaun ddaeth â lwc i'r tîm. Da iawn chdi Mathew.

21 oed a 60 oed: Pob bendith a llwyddiant i'r dyfodol i Sioned Williams a Mark Porter sy'n dathlu eu pen-blwydd yn 21ain oed.

Dymuna ffrindiau Dic Williams, Bryntirion, pob dymuniad da ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 60 oed.

Ysgol Gymuned Penisarwaun: Ychydig wythnosau yn ôl aeth dosbarth y babanod i Theatr Gwynedd i weld cynhyrchiad o 'Sionyn a'r Llong Ofod'. Yn dilyn y sioe cafodd y plant gyfle i gyfarfod y pypedau. O'r ymateb wedi



Aelodau Ysgol Sul Bosra gyda'u tystysgrifau am gasglu at y Genhadaeth Dramor. Yn absennol o'r llun mae Elgan Price Williams a Sion Llŷr.

dychwelyd i'r ysgol ymddengys fod pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Dechreuodd plant blwyddyn 5 a 6 ar gyfres o wersi hyfforddiant beiciau dan arolygaeth Mr Dafydd Edwards o Adran Diogelwch y Ffyrdd. Yn ogystal â phrofi eu medrusrwydd ar gefn beic mae'n rhaid iddynt ddysgu Rheolau'r Ffordd Fawr ar eu cof a sefyll arholiad. Pob hwyl blant.

Cynhaliwyd noson o adloniant yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar gan Antur Padarn a gwahoddwyd yr ysgol i gyflwyno eitemau cerddorol. Cyflwynodd Côr yr adran iau dair cân, a'r bwriad yw recordio rhai o'r eitemau yn y dyfodol agos a chynhyrchu casét. Cafodd y plant hwyl ar y canu ac fe ddiolchir i Mrs Ann Thomas am eu paratoi mor dda ac am gyfeilio iddynt ar y noson.

Yn ogystal â derbyn llwyfan yn y Neuadd Gymunedol gosodwyd ffrâm ddringo yno hefyd. Rhoddwyd y ffrâm ar waith yn ddiymdroi ac ymddengys fod y plant wedi cymryd ati ar unwaith.

Cyfeillion yr Ysgol: Mewn cyfarfod o'r pwyllgor, nos Iau, Ebrill 22ain penderfynwyd cynnal Sêl Cist Car ar nos Fawrth, Mehefin 29ain, ar fuarth yr Ysgol Gymunedol am 6.30 p.m. Codir tâl o £3 y cerbyd. Bydd stondinau a lluniaeth ysgafn ar werth ar y noson. Bydd yr arian yn mynd tuag at Gronfa'r Cyfeillion.

Arholiadau: Dim ond un peth da sydd ynglŷn â'r tywydd gwlyb yma, sef ei bod yn llawer haws i'r adolygwyr prysur sy'n sefyll y gwahanol arholiadau. Pob dymuniad da a phob llwyddiant i bob un ohonoch — fe ddaw haul ar fryn ar ôl hyn eto!

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr
650552

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri

am brisiau rhesymol

ELWYN PRITCHARD

Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun — Gwener

10.00 — 3.30

I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch

Llanberis 870922

neu Bangor 351427

Heliwch eich traed
am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS**
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470



Bistro

43 - 45

Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: 871278



CURIAD CALON CYMRU



CURIAD CALON CYMRU

ECO'R IFANC

COFIWCH
AM Y GYSTADLEUAETH
PÊL-DROED I DIMAU DAN 12 oed
NOS WENER, MAI 28
am 6 o'r gloch
ar Gae Ysgol Gynradd Llanrug
DOWCH I GEFNOGI'R TIMAU

Cystadleuaeth mis Mai

Gosodwyd cystadleuaeth y mis diwethaf. Roedd gofyn i chi ysgrifennu am y gwyliau haf y buasech chi'n hoffi eu cael eleni. Llongyfarchiadau i'r enillydd, **RHIAN WILLIAMS, Arfon House, Bethel**. Dyma'r stori a enillodd y wobr iddi:

PYTHEFNOS YN AMERICA


Buaswn yn hoffi mynd i America i weld y taleithiau yn enwedig Hollywood i mi gael gweld Tom Cruise a Michael Jackson.

Tra fy mod yn America buaswn hefyd yn hoffi mynd i weld Mickey Mouse yn Florida. Hefyd buaswn yn hoffi mynd i ran o America lle mae coed cnau-coco a thywod euraidd a dŵr y môr yn groyw a chlir.

Os af i mewn i jyngl Indiana Jones mewn camgymeriad buaswn wrth fy modd yn gweld bob math o gathod mawr.

HELFA DRYSOR

Dowch am dro o gwmpas ardal yr Eco.
Fedrwch chi ddweud ym mha bentref y basech chi'n dod o hyd i'r pethau a restrir?
Rhowch y rhifau wrth y pentref cywir ar y map.



1. Yr hen ysgol uwchradd sydd wedi cau.
2. Yr ysgol fwyaf newydd yn y fro.
3. Y castell lle carcharwyd Owain Goch.
4. Cwmni'r Bysus Gwyn ers talwm.
5. Ebeneser oedd hen enw'r pentref hwn.
6. Sŵn y tylluanod o Lwyncoed ____.

7. Man geni W. J. Gruffydd.
8. Parc Gwyliau Glan Gwna.
9. Capel Rehoboth.
10. Y pentref o'r un enw â'r Chwarel.
11. Hen siop y Coparet.
12. DIM Capel.

I'r plant lleiaf

Lliwiwch


y DRWS yn GOCH

y FFENESTRI
yn FELYN

y TO yn LAS

y GOEDEN yn
WYRDD a BROWN

y CYMYALAU yn DDU



CYSTADLEUAETH Y MIS Cwis Eisteddfod yr Urdd

1. Lle cynhelir Eisteddfod yr Urdd eleni?
2. Lle cynhelir Eisteddfod yr Urdd 1994?
3. Beth yw enw 'mascot' Eisteddfod 1993?
4. Beth yw enw 'mascot' Eisteddfod 1994?
5. Beth yw lliwiau yr Urdd?
6. Ffyddlondeb i beth ddywed arwyddair yr Urdd?
7. Pwy enillodd gadair yr Eisteddfod eleni?
8. Pwy enillodd goron yr Eisteddfod eleni?

Bydd raid i chi ddisgwyl tan wythnos yr Eisteddfod cyn gallu ateb cwestiynau 7 ac 8.

Yr atebion at Eco'r Wyddfa, Cilfynydd, Llanberis, erbyn Mehefin 19.

Pêldroedwyr Bethel

Llongyfarchiadau i un o dimau pêldroed dan ddeg oed Bethel a enillodd y gystadleuaeth a gynhaliwyd ar faes yr Oval yng Nghaernarfon ddydd Sadwrn, Mai 22. Yr oedd timau o Lanrug a Llanberis yn cystadlu hefyd. Yn wir, dau o dimau o'r ardal hon a gyrhaeddodd y rownd derfynol. Trechu tîm o Lanrug a wnaeth hogia

Bethel yn y rownd derfynol honno. Yr oedd y gystadleuaeth wedi ei threfnu ar ddydd rowndiau terfynol y cwpan i dimau dan 12, 14 ac 16. Cyflwynwyd y tlysau gan Mr Thomas John Roberts, Llanberis, Cadeirydd Cynghair Pêldroed Gwyrfa.

DIODYDD BLASUS



Bu'r uned Hybu Iechyd yn Ysgol Brynrefail yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Alcohol ym mis Ebrill. Y bwriad oedd dangos effeithiau cam ddefnyddio alcohol i'r disgyblion. Fel rhan o'r gweithgareddau bu'r Ymwelwyr

Iechyd lleol, Mrs Betty Parry a Mrs Ceri Pierce Williams, yno'n cynorthwyo'r Uned. Yn y llun gwelir y ddwy yn cynnig diodydd di-alcohol i rai o'r disgyblion, er mwyn dangos y fath amrywiaeth a dewis o'r fath ddiodydd sydd ar gael.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG

Ffôn: 677482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr ffenestri
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

Wavell Roberts

CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:

(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513



Taith Gyfnewid Ysgol Brynrefail, Llanrug a Choleg Mescoat, Landerneau

Yr haf yma bydd ardal Arfon yn gefeillio'n swyddogol â thref Landerneau a'r ardal yn Llydaw. Ers misoedd bu Mrs Danielle Jones, athrawes Ffrangeg yn Ysgol Brynrefail, yn trefnu taith gyfnewid rhwng disgyblion yr ysgol yma a disgyblion Coleg Mescoat yn Landerneau. Wedi i ddeg ar hugain o ddisgyblion ym mlwyddyn 9 a 10 fynegi diddordeb yn y cynllun dechreuwyd llythyru'n frwd! Daethpwyd i adnabod eu cyfeillion Ffrengig trwy gyfres o lythyrau Ffrangeg wrth gwrs!

Y dyddiad ar gyfer y daith i Lydaw oedd Mawrth 27ain tan Ebrill y

4ydd. Bu edrych ymlaen brwd ar gyfer y diwrnod mawr gan blant ac athrawon. Dyma ddyddiadur Sioned Mair Jones, 9I, un o'r disgyblion a fu ar y daith yn adrodd yr hanes: 27:3:93

Ar ôl hir aros cychwynasom ar y daith am unarddeg fore dydd Sadwrn. Roedd pawb yn edrych ymlaen ac roedd y bws yn le swllyd iawn! Gwelsom ffilmiau ar y bws a buom yn gwrandao ar gerddoriaeth. Roedd y gyrrwr bws yn hwyliog iawn a chyraeddasom Plymouth yn fuan, am naw o'r gloch. Ond, wrth i ni disgwyl y cwch cawsom ddywawr hir iawn. Am unarddeg fe fyrdiodd criw Brynrefail y cwch. Cawsom gadeiriau i gysgu arnynt mewn rhyw theatr ar y cwch a gorchmynion i fod yn ôl erbyn deuddeg. Cafodd llawer o bobl noson ddi-gwsg y noson honno!



Dyma lun o'r 'Hotel de Ville' yn Landerneau, sef Neuadd y Dref lle croesawyd yr athrawon a'r disgyblion yn swyddogol gan y Maer. Sylwer ar y ddraig goch wrth ochr baner Ffrainc a Llydaw.

28:3:93

Gwawriodd bore dydd Sul ar y gwch, a llawer o bobl ddim yn teimlo'n rhy dda ar ôl noson ar y môr. Tua saith y bore aethom ar y bws a theithio o Roscoff drwy ardal wledig yn Llydaw. Tua wyth fe arhosom mewn caffi mewn tref fechan o'r enw St. Pol de Leon a chael croissants a phaned yno i frecwast. Am ddeg cyrhaeddasom y College de Mescoat i gyfarfod ein teuluoedd am y tro cyntaf. Roedd pawb ychydig yn nerfus yn enwedig pan welom fod pawb yn cusanu ei gilydd. Nid oedd rhai Cymry yn gwybod faint o gusanau roeddech i fod i'w rhoi i'r teulu! Aethom i geir ein teuluoedd a Mr Siôn Jones yn mynd ar nerfau pawb hefo'i gamera fideo. Treuliasom weddill y diwrnod gyda'r teuluoedd.

29:3:93

Roedd rhaid i bawb godi cyn iddi oleuo ddydd Llun. Roeddwn i ar y ffordd i'r ysgol am hanner awr wedi saith. Roedd pawb yn falch o weld eu ffrindiau y bore hwnnw i siarad am ein profiadau y diwrnod cynt er bod y rhan fwyaf o bobl ddim wedi agor eu llygaid yn iawn eto. Aeth Mr (?) â ni o amgylch ei ysgol ac roedd yn amlwg ei fod yn falch iawn ohoni, oherwydd roedd yr ysgol yn lân iawn ac yn fodern hefyd. Yna fe ddangosodd yr athrawes daearyddiaeth sleidiau o ardal Finistere i ni. Cawsom ginio blasus yn yr ysgol cyn mynd i Brest. Yn Brest aethom ar gwch oedd yn perthyn i'r llynges; yna mynd i siopa yn y ddinas. Ar ôl dychwelyd i Landerneau aethom yn ôl i'r ysgol am 'Pot de l'accueil', sef bwyd croesawu.



Dyma'r genod oedd ar y daith ar ganol taith gerdded.




David Watkin, Ben, David Wager, Darren a Huw yn bwyta'u cinio mewn parc yn Brest o flaen bws K.M.P.I

30:3:93

Aethom i'r ysgol erbyn wyth o'r gloch eto yn barod i gychwyn ar drip y diwrnod hwnnw. Yn gyntaf aethom i Quimper, lle y dangosodd Ffrances waliau Quimper a'r eglwys enwog sydd yno i ni. Cawsom glywed hanes y ddinas ganddi hefyd. Yna aethom i grochendy ar gyrion Quimper a gweld llestri traddodiadol Llydewig yn cael eu gwneud. Roedd siop fechan yn ymyl y crochendy ond roedd prisiau'r llestri'n rhy ddud i neb brynu dim byd yno. Ar ôl cinio aethom i Concarneau ond roedd hi'n amser cinio yno felly doedd y mwyafrif o'r siopau ddim ar agor. Yn y prynhawn aethom yn ôl i Quimper i gael crwydro'r siopau a phrynu presantau yn barod i fynd adref.

31:3:93

Nid oes gan y Ffrancwyr ysgol ar ddydd Mercher ac yn y bore roedd rhyw helfa drysor wedi ei threfnu i ni. Byddai popeth wedi bod yn iawn onibai iddi gychwyn tywallt y glaw a ninnau yn gorfod mynd i grwydro adeiladau a chyfri ffenestri a phethau felly. Erbyn unarddeg roedd y Ffrancwyr a'r Cymry yn swatio mewn rhyw arosfan bwsiau yn wlyb at ein crwyn, pan ddaeth Mr Siôn Jones yno yn hollol sych. Roedd wedi deffro a gweld y glaw ac yna mynd yn ôl i gysgu pan oeddem ni i gyd yn crwydro Landerneau yn wlyb socian! Treuliwyd y prynhawn gyda'r teuluoedd a phawb yn gwneud pethau gwahanol.



Luned, Lois, Rhian, Sioned, Nia, Bethan, Gareth, Mrs Danielle Jones, Sara a Jessica yn paratoi i 'Char à Voile', sef hwylio-tywod.

1:4:93

Heddiw roeddem yn mynd i drafaelio yn y bws am rhyw awr nes cyrraedd Parc Gwledig Llydaw. Cerddasom o amgylch yr ardal arbennig honno a chawsom ein dysgu am fywyd gwylt Llydaw. Ar ôl cinio teithiasom i draeth arall yn barod i fynd ar y 'char-a-voils' (hwylio tywod). Er ein bod wedi cael ein dysgu i wneud hyn roedd llawer o'r cerbydau yn mynd yn rhy bell, i gyfeiriad y môr ac eraill ddim yn gallu symud o gwbl! Cawsom hwyl fawr y prynhawn hwnnw a mwynhaodd pawb eu hunain.

2:4:93

I 'Oceanopolis' yn Brest yr aethom y diwrnod yma. Roedd yno lawer o bysgod o bob math, morloi a llawer mwy. Y swfôr yma yw'r fwyaf o'i bath yn Ewrop. Ar ôl bwyta mewn parc yng nghanol Brest aethom i siopa tan ddau o'r gloch, wedyn yn ôl i'r bws a mynd i'r 'Patenoir' i sgelfrio. Treuliasom ddwyawr bleserus iawn yno a llawer ohonom â chleisiau drosom i brofi hynny! Teithiasom yn ôl i'r ysgol ac roedd y Ffrancwyr yno'n disgwyl amdanom.

3:4.93

Gwawriodd bore ein diwrnod cyfan olaf yn Ffrainc yn fore gwlyb. Roedd gennym ddewis un ai aros yn yr ysgol neu fynd i siopa yn y dref. Ar ôl awr fe gerddodd pawb i Landerneau ei hun i siopa neu newid arian. Roedd rhaid i bawb fod yn yr ysgol erbyn hanner awr wedi unarddeg er i amryw ohonom fynd ar goll tra'n chwilio am yr ysgol. Treuliasom y prynhawn gyda'n teuluoedd oherwydd mai hwn oedd y cyfle olaf i fod yn eu cwmni.

4:4.93

Roedd yn rhaid i bawb fod yn yr ysgol erbyn hanner awr wedi pump y bore yn barod i gychwyn ar y daith adref. Roedd rhai ohonom yn drist

wrth adael Ffrainc ac eraill yn hapus eu bod yn mynd i gael gweld eu rhieni a'u teuluoedd eto. Roeddem yn hwylio am wyth o Roscoff felly cawsom ein brecwast ar y cwch. Roedd pawb yn cysgu arni ar y ffordd adref am ein bod wedi blino cymaint. Er ei bod yn ddiwrnod eithaf heulog roedd y môr yn eithaf garw ac roedd y rhan fwyaf ohonom yn sâl. Ar ôl cyrraedd Plymouth roedd yn daith hir yn ôl adref i Lanrug ond fe gyrhaeddasom am naw o'r gloch ac ar ôl llwytho ein paciau i'r ceir a oedd yn ein disgwyl fe aeth pawb adref yn llawn storïau am wythnos blesurus iawn.

* * * * *



Bellach daeth tro'r Llydawyr i godi pac a chychwyn tua Chymru i aros yng nghartrefi eu cyfeillion newydd. Cyrhaeddasant ar bawn Mawrth, Mai 1leg, gan ymadael ar y 18fed o Fai. Dyma i chi syniad o'r math o weithgareddau a drefnwyd ar eu cyfer:

Mai 1leg

3.45 p.m. — cyrraedd Ysgol Brynrefail a chael lluniaeth ysgafn yn y ffieutur cyn cyfarfod y teuluoedd.

Mai 12fed

Treulio'r bore yn Ysgol Brynrefail. Ymweld â rhai dosbarthiadau. Cymryd rhan mewn gwahanol chwaraeon cyn cael cyflwyniad i'r ardal ar ffurf sioe sleidiau; 2.00 p.m. — ymweld â Chastell Caernarfon; 3.30 p.m. — lluniaeth yng Ngwesty'r Royal a'u croesawu'n swyddogol i'r ardal gan Faer y dref; 5.30 - 7.00 p.m. — defnyddio'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon, yn rhad ac am ddim;

Mai 13eg

9.30 a.m. — ymweld â thref Porthmadog;

10.30 a.m. — taith ar y trên bach i Flaenau Ffestiniog;

11.30 a.m. — ymweld â chwarel Llechwedd.

Mai 14eg

Teithio i Gaer a chael eu tywys o amgylch y ddinas cyn cael cyfnod rhydd i siopa.

Mai 15fed

Y Llydawyr a'r Cymry i gyfarfod ger Swyddfa Bost Caernarfon i gymryd rhan mewn taith ddarganfod o gwmpas y dref ac ateb holiadur. Treulio'r prynhawn â'r teuluoedd.

Mai 16eg

Treulio amser â'r teuluoedd ac ymweld â rhannau o Ynys Môn.

Mai 17eg

Treulio'r diwrnod yn Llanberis. Yn y bore teithio ar y trên bach i ben yr Wyddfa ac ymweld ag Amgueddfa Gogledd Cymru yn y prynhawn.

Newyddion o Ysgol Brynrefail CYSTADLEUAETH GYMUNEDOL

Fel mae darllenwyr yr *Eco* a thrigolion yr ardal yn gwybod bellach mae disgyblion y chweched yn Ysgol Brynrefail yn cynnal parti ar gyfer disgyblion Ysgol Pendalar pob Nadolig. Y flwyddyn hon cawsom barti llwyddiannus iawn, felly pan gyrhaeddodd llythyr i'r ysgol yn sôn am gystadleuaeth gymunedol roeddem yn awyddus i gystadlu.

Y gystadleuaeth oedd rhoi cyflwyniad yn egluro ein gwaith yn y gymuned, felly, yn naturiol penderfynasom sôn am Barti Pendalar.

Ebrill 16 aeth pedwar ohonom i Fangor i gynrychioli disgyblion y chweched yn y gystadleuaeth. Y beirniad oedd pump o gynrychiolwyr y Co-op — oherwydd y Co-op oedd yn cynnal y gystadleuaeth.


Gyda chymorth fideo a lluniau o'r parti fe eglurom i'r beirniad sut wnaethom ni baratoi a chynnal y parti, gan roi pwyslais ar y ffaith na fyddai'r parti wedi bod yn bosib heb

garedigrwydd siopau a chwmnïau lleol.

Roedd wyth grŵp arall yn cystadlu a gwelwyd prosiectau yn amrywio o gynnal Bingo i'r henoed, i gynllunio peiriant teithio ar y traeth ar gyfer cadeiriau olwyn.

Cawsom ginio blasus, ac yna yn y prynhawn bu'n rhaid i ddau grŵp ail gyflwyno eu cyflwyniadau o flaen cynulleidfa.

Buom ni yn un o'r grŵpiau llwyddiannus gan ddod yn gydradd ail yn y gystadleuaeth. Cawsom dystysgrif a hanner canpunt i gronfa Parti Pendalar.



Catrin Thomas, Nia Gruffydd, Amanda Moloney a Nia Gwawr, cynrychiolwyr Ysgol Brynrefail, yn derbyn y wobr.

CABS LLANRUG



C'fon 675951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen


Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



Y plant ysgol o Lancerneau fu yn ymweld â'r ardal yn ddiweddar.



GAIR GAN DELYTH

Wedi cael dau ddiwrnod o wyliau wythnos diwethaf gan ei bod yn gyfnod Hari Raya yma, sef diwedd cyfnod 'llwgu' y Mwslemiaid. Roedd y Sultan yn cael tri diwrnod agored yn yr Istana (palas) i ddathlu, felly i ffwrdd â fi yn y car bach am Bandar Seri Begawan. Dyna brofiad anhygoel oedd cael mynediad drwy'r giatiau enfawr a cherdded drwy'r gerddi tlws cyn ymlwybro tuag at y prif fynedfa ac i mewn i'r Istana.

Roedd yn rhaid arwyddo'r llyfr mynediad i ddechrau a rhaid oedd cael rhoi esboniad clir i'r dyn bach 'wrth y drws' mai lodes o Wlad y Gân oeddwn ac nid Saesnes.

Cawsom ginio bendigedig ar blatiau drudfawr, sef cyri cig eidion a 'mee goreng', sef math arbennig o nŵdls.

Roedd y lle yn orlawn o bobl o bob lliw a llun ond Mwslemiaid oedd y rhan fwyaf wrth reswm. Roedd rhyddid gennym i ddefnyddio'r camera ac felly dyma ddefnyddio rôl cyfa o ffilm er mwyn cael lluniau o'r lle anhygoel yma.

Ar ôl cinio, rhaid oedd cael ein gwahanu oddi wrth y dynion, gan mai nhw yn unig oedd am gael cyfarfod â'r Sultan a'i frodyr ar y dydd arbennig hwn, a ni'r merched yn cael cyfarfod y ddwy wraig a'r merched bach.

Ia wir, siom fawr o sylweddoli na chawn y cyfle i ysgwyd llaw y Swltan y tro hwn, ond ta waeth, hwyrach y daw cyfle arall cyn bo hir!

Roedd yn rhaid dringo lawr rhes o risiau anferth er mwyn ymweld â'r teulu, efo dau bwl nofio enfawr o'n cwmplas. Gadael y camera y tu allan i'r 'stafell ymweld' a cherdded yn un rhes tuag at 'y merched'. Ei wraig gyntaf oedd ar flaen y rhes hefo gwraig rhif dau yn sefyll tua canllath oddi wrthi, ac yna'r plantos ar yr ochr draw.

Cael anrheg ganddynt wedyn, sef pum doler i bob plentyn a bocs bwyd yn llawn bisgedi a chnau i'r oedolion.

Roedd yr ystafell yn llawn o addurniadau drud, ond roedd camerau fideo ym mhob twll a chornel hefyd!

I ffwrdd â ni wedyn am y gerddi unwaith eto ond yn gyntaf rhaid oedd cael tynnu fy llun ar y carped coch reit o flaen y 'drws ffyrnt'!

Ys gwn i beth ydy teimladau'r ddwy wraig at 'i gilydd o orfod 'rhannu' yr un gŵr? Pwy a wyr yntê, ond 'na fo, roedd yn brofiad anhygoel cael mynediad i mewn i'r palas mwyaf yn y byd.

DELYTH ERONWY

GERDDI GLASCOED

(Ger Capel Glascoed)

PENISARWAUN

I'ch gardd
fod ar ei orau
galwch heibio
neu ffoniwch

870453

CWPAN ALAN

Enillwyd Cwpan Her Francis Jones yng Nghlwb Snwcer Llanberis eleni gan Alan Jones. Roedd y rownd derfynol yn ornest rhwng dau o selogion y stafell snwcer, Alan ac Oliver Edwards. Yn y llun gwelir y gwpan yn cael ei chyflwyno gan Francis Jones i Alan, gydag Oliver yn dal y tlws am yr ail safle.



DRAENOG

Nid yw pawb yn sylweddoli fod cafffi newydd wedi agor yn Llanrug. Am gyfnod byr iawn y bu'r hysbyseb yn cael ei harddangos yn ffenestr siop go enwog yn y pentref, ac am gyfnod byrrach o lawer y bu'r arwydd am goffi'r bore a the'r prynhawn yn lordio o flaen drws ffyrnt y tŷ a draws y ffordd i'r siop. Efallai nad oeddwn i fod i weld yr hysbyseb am 'fwyd cartref, ystafell foethus, adnoddau



gwyh, gwasanaeth cyfeillgar Cymraeg — os 'da chi really isho — a gostyngiad i aelodau Cymdeithas yr Iaith a phobl Cuba'. Methu deall rydw i pam fod yr arwydd peintiedig o flaen y drws ffyrnt yn uniaith Saesneg. Ond mae'r hysbyseb ym meddiant y golygydd rhag ofn nad oes neb yn fy nghoelio!



**GWASANAETH TRIN GWALLT
YN EICH CARTREF I FERCHED,
DYNION A PHLANT**

LINDA MORRIS

**1 BRYN FEDWEN, Ffordd yr Orsaf
LLANRUG. Ffôn: 678857**

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

9:6:93

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu

★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth

Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545



**Am eich holl
anghenion
dodrefn**

★ Dresel

★ Byrddau

★ Cadeiriau

★ Unedau Cegin

★ Dodrefn Ystall Wely
a.y.b.

oll wedi eu gwneud i
ofynion yr unigolyn ...

J. W. ROBERTS

Ffôn: 675646

neu 676268



& Restaurant

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar
gyfer priodasau, dathliadau
bedydd, pen-blwydd a phob
achlysur arbennig arall.

Gallwn drefnu adloniant -
disgo a.y.b.

Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

'Roc-on' Ceunant

O stabal gerddorol Ceunant tros y ddau fis nesaf bydd rhai o grwpiau mwyaf blaenllaw Prydain yn eu maes arbennig eu hunain yn ymddangos ar lwyfannau lleol.

Yn gyntaf bydd 'One Style MDV' a'r grŵp 'Kava Kava' yn ymddangos yn yr 'Heights' Llanberis ar nos Sadwrn, Mehefin 26. Mae 'One Style' erbyn hyn yn adnabyddus yn ardal y Ceunant ac i'w gweld yn cerdded llwybrau mynydd Cefn Du a lonydd bychan cefn y Ceunant ble maent yn eu helfen ac yn treulio pob munud sbâr rhwng y gwaith recordio. Bydd eu hail LP allan ym mis Awst ar label Sain a bydd cân Gymraeg yn gynyddedig. Yn ogystal bydd cerddorion Cymreig yn cyfrannu at y cynhyrchiad a fydd ar werth ledled Ewrop.

Cymysgedd o Wyddelod, Albanwyr a Saeson yw 'Kava Kava' o Sir Gaer Efrog, sy'n chwarae cerddoriaeth ail gymysg 'boardwalk' o'r chwedegau, gyda rhyddmau allweddellau syfrdanol a lleisiau cyniawir sy'n gwrthio ffiniau y gerddoriaeth i'r eithaf i ddweud y lleiaf. Maent wedi profi eu hunain ar lwyfannau y 'Cavern', Lerpwl; 'Mean Fiddler', Llundain; a 'Top Spot' yn Huddersfield. Mae eu LP newydd 'Cosmic Wobbler' wedi gwerthu yn arbennig o dda ar hyd a lled Prydain ac mae un o'u caneuon, 'Chasm', wedi ei dewis i gael ei rhyddhau yn hwyrach yn y flwyddyn ar LP amlgyfrannog ar label 'Delirium' o Lundain.

Grŵp arall fydd yn ymddangos yw 'End of Culture'. Grŵp dawnsiadwy Affricanaidd/Regge sydd yn ystod y

deng mis diwethaf wedi teithio Ewrop mewn bws-dau-lawr coch yn codi arian i blant Rwmania, fel yr adroddwyd yn rhai o bapurau cenedlaethol Lloegr, 'The Serious Road Trip'. Hefyd rhyddhawyd dwy gân ar feiniyl 7" o'r un enw, yr holl elw yn mynd tuag at blant mewn angen ledled Ewrop. Maent yn adnabyddus am eu caneuon ffwnsi fel 'What is it?' a 'Love and Hate' ac wedi eu disgrifio gan y *Times Chronicle* yn Llundain fel band blaenllaw rhyddmig gyda drwm-wraig arbennig, geiriau da a gitarydd creadigol, gyda pheirianwyr profiadol 'UB40' a'r 'Rolling Stones' yn rhoi help llaw i'r cynhyrchiad. Gyda apêl ar draws y spectrwm mae rhain yn fand i'w gweld yn yr 'Heights' Llanberis ar nos Sadwrn, Gorffennaf 3.

I gloi drws y stabal ar nos Sadwrn, Gorffennaf 31, bydd y grŵp 'The Explosion' o Fanceinion, sydd yn adnabyddus yng Nghymru am eu gwaith gyda Chôr Plant Ysgol Bryn Coch, Yr Wyddgrug, yn cyfieithu dwy gân Jamaican i'r Gymraeg: 'Dolig Ddaeth Eto'n Ôl', a 'Seion Deffrowch', a ryddhawyd ar label Sain yn Nhachwedd 1990.

Grŵp Regge o ghetto Moss Side yw 'The Explosion' sydd i gyd yn enedigol o Jamaica. Mae eu cerddoriaeth yn adlewyrchu y tldi, anobaith a'r ffordd y mae pob llywodraeth a'r sustem wedi eu gadael i lawr, ynghyd â'r ffordd mae'r wasg a'r cyfryngau Seisnig yn maentumio fod pobl ddu sy'n byw yn yr ardal fel 'gunslingers' a masnachwyr cyffuriau. Ond, wedi dweud hyn, plesio eu cynulleidfau yw eu prif nod ac maent hefyd yn canu



caneuon Bob Marley a nifer o artistiaid eraill enwog yn y byd Regge. Dysgodd y grŵp yma drwy ffordd galed sut i blesio cynulleidfaoedd Prydain, a bellach fe deimlwch eich bod ar wyliau yn Jamaica tra bont ar y llwyfan.

Holais Bryn Ceunant ymhellach am yr holl ddiwylliant cerddorol yma sy'n codi ei ben o'r Ceunant a dywedodd mai 'dim ond adlewyrchiad o gryfder y 'sîn' cerddorol Cymreig yw fod cynifer o grwpiau da fel hyn eisiau cyfrannu tuag at, a bod yn ddaid

bach o beth sydd yn mynd ymlaen yn y sîn roc Cymraeg. Mae'n rhaid cyfaddef, wrth iddynt deithio trwy Gymru a gweld a theimlo y faib trostynt eu hunain, maent yn lledu'r neges fod y 'natives' yn siarad eu hiaith eu hunain gyda'u diwylliant eu hunain, ac yn sefyll ar eu traed eu hunain yn wyneb yr holl driciau politicaidd i 'stereotypio' pobl Cymru i fewn i'r 'commercial New World Order Anglo-American' mae y gwleidyddion Saesneg yn San Steffan yn trio stwffio lawr ein gyddfa."

COFIWCH AM GYFARFOD BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA

MAE'N BLESER GENNYM DDWEUD EIN BOD WEDI MYND I LAWYR YN EU LLYFRAU

Mae cyfres y Volvo 400 yn awr yn cael ei ystyried mewn grŵp yswiriant sy'n sylweddol is na mwyafrif y ceir o'i faint. Adlewyrchiad yw hyn o ansawdd yr adeiladwaith ac ymrwymiad Volvo i ddiogelwch mewn ceir.

Mae cyfres newydd o geir chwistrellu tanwydd ar gael ar gyfer 1993, rhai gyda dewis o yriant turbo. Mae'r ceir 1.6, 1.7, 1.8 a 2.0 hyn yn cynnig mwy fyth o bŵer ac ymateb.

Gyda'r prisiau'n dechrau o £9,975, dyma geir o sylwedd — heb wario'n sylweddol.

GWETHREDU
AR GYFER

DIOGELWCH PLANT
YN CYDWEITHIO Â

VOLVO

*Yn cynnwys costau cludo cyhoeddedig y gweithurwr a phlatiau rhifau. Nid yw'n cynnwys treth car. Mae'r prisiau'n gywir ar adeg mynd i'r wasg.

GRWPIAU YSWIRIANT NEWYDD

	GRŴP BLAENOROL	GRŴP NEWYDD
VOLVO 440 Li	5	5
ROVER 214 S	4	7
CAVALIER 1.6 L	4	7
SIERRA 1.6 CFI	4	8
CHAMADE 1.9 GTS	4	9
PRIMERA 1.6 L	5	10

Y VOLVO 440 O
£9,995*
YN UNIG
Ar y ffordd



MODURDY TŶ'N LÔN CYF

Ffordd Caergybi, Llanfairpwllgwyngyll, Ynys Môn LL61 5SX. Tel: 0248 714259
Oriau Agor: Llun - Gwener 8.00a.m. - 7.00p.m. Sadwrn 9.00a.m. - 5.00p.m.
Sul 1.00p.m. - 5.00p.m.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Llongyfarchiadau:

— i Karen a Nigel Williams, Pool Street, ar enedigaeth merch, Rebecca, chwaer fach i Karrah a Stephanie;

— i Jackie a Dafydd Hughes, London Garage ar enedigaeth merch fach, Donna Sarah;

— i Doreen a Mark, Stryd Newydd, ar enedigaeth mab, David Michael, brawd bach i Paul;

— i Carys, Bryn, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 18 oed.

Diolch: Dymuna Carys, Bryn, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed.

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Bobbie Evans, 15 Dôl Afon, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd yn Llanberis.

Clwb Pobl y Cwm: Hyfryd oedd cael croesawu Mrs Mair Williams yn ôl wedi ei llawdriniaeth yn yr ysbyty, a dymuna'r aelodau anfon ein cofion a'n dymuniadau da i rai ffyddloniaid sydd wedi eu caethiwo ers tro oherwydd gwaeledd — yn wir mae chwithdod o'ch colli.

Ebrill 29: Y tro hwn aeth Mr Llew Hughes, y llywydd, â ni i fyd 'Celwydd Golau', a threuliodd orig ddifyr yn trafod a mwynhau casgliad Arthur Tomos, ynghyd ag atgofion am rai a adwaenem a oedd yn ffræth dros ben. Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs G. Chick a'r enillydd oedd Mrs E. Hughes.

Mai 13: Ein gwraig wadd y tro hwn oedd Mrs Maureen Lennon, cyn

brifathrawes Ysgol Cwm-y-glo, ac estynnodd y llywydd groeso cynnes iawn iddi. Buom yn dilyn ei hanes o ddyddiau ysgol yn Llanberis, i Ysgol Brynrefail a choleg, ac yna i'r amryw ysgolion y bu'n dysgu ynddynt fel athrawes a phrifathrawes. Mae i Mrs Lennon ddull naturiol a difyr o draethu, a chawsom i gyd bleser mawr o'i gwranddo, ac o weld nifer fawr o luniau ardderchog o blant rhai ysgolion. Diolchwyd yn fawr i Mrs Lennon am bnawn difyr dros ben. Y gwestwagedd oedd Mrs M. Rowlands a Miss M. Davies a Mrs Rowlands oedd enillydd y raffl.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor hwn yn Hafan Elan, Llanrug, ar Mai 10. Cafwyd gwasanaeth byr i ddechrau'r cyfarfod. Croesawyd Mrs D. Pierce yn ôl atom wedi cyfnod o salwch. Caed adroddiad gan Mrs M. Latham am y gwasanaeth a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Ioan, Porthmadog, ar 23 Ebrill, i ddathlu canmlwyddiant Undeb y Mamau yng Nghymru. Cynhelir Gŵyl Ddeoniaeth Undeb y Mamau yn yr Eglwys Gadeiriol ym Mangor. Cafwyd adroddiad gan Mrs Taylor am y ddau bwyllogor a gyfarfu yn ddiweddar ym Mangor.

Y wraig wadd oedd Mrs Dorset a'i phwnc oedd gwneud lês (lace-making) ac yr oedd ganddi nifer o wahanol batrymau i'w dangos. Cafwyd noson ddiddorol iawn yn ei chwmmi. Diolchwyd iddi gan Mrs Kath Jones. Yn gofalu am y baned roedd Mrs Joan Williams a Mrs V. Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Williams ac fe'i henillwyd gan Mrs Dorothy Jones. Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi.

Ysgol Cwm-y-glo: Cynhaliwyd dau gyfarfod o adran yr Urdd yn ystod y mis diwethaf. Cafwyd Gyrfa Chwilod hwyliog iawn, gyda rhai o'r rhieni yn cynhyrfu mwy na'r plant! Pencampwyr y noson oedd Mathew Roberts ac fe aeth y wobwr gysur i Ceri Davies. Yna cafwyd noson amrywiol yng ngofal Mrs Rita Williams a Mrs Alwen Jones. Mae'n debyg mai'r gêm 'Siôn a Siân' oedd yr un fwyaf poblogaidd.

Mae'n braf llongyfarch teulu arall ar enedigaeth plentyn bach. Erbyn hyn mae gan Paul Fleetwood frawd bach. Croeso mawr i David Michael.

Rydym hefyd yn cydymdeimlo yn ddwys iawn â Jane Ford a'i theulu yn eu profedigaeth o golli perthnasau ifanc iawn yn y drychineb arswydus yn Nhreffynnon yn ddiweddar.

Mewn cyngerdd arbennig, a drefnwyd gan Antur Padarn, daeth nifer o ysgolion cynradd lleol at ei gilydd i gyflwyno eitemau amrywiol. Diolch i'r plant o'r ysgol hon am eu cyfraniad hwy gan fawr obeithio eu bod wedi mwynhau y profiad gwerthfawr hwn.

Treuliodd Donna Roberts o Ysgol Brynrefail wythnos o brofiad gwaith yn nosbarth y babanod. Gobeithio'n wir i'r wythnos fod yn werthfawr ac yn fwynhad iddi.

Aeth gwobr gyntaf Clwb yr Ysgol

am fis Ebrill i Mrs Ann Williams, Ystrad, Llanrug, a'r ail wobwr i Ken Williams, Glanbogelyn, Cwm-y-glo.

Treuliodd prynhawn difyr iawn yng nghwmni Mr Emrys Owen, Hafan Elan, Llanrug. Daeth at blant yr adran lau. Cawsant gyfle i'w holi am ddyddiau ei lencyndod ac yn arbennig felly am ei dyddiau yn gweithio yn y chwarel. Sylweddolodd y plant cymaint o wahaniaeth sydd rhwng patrwm bywyd ddod a heddiw. Diolch o galon i chwi Mr Owen am ddod atom.

YSGOL GYMUNED CWM-Y-GLO YN EISIAU

CYNORTHWYWR CLERIGOL

2 awr ar bnawn dydd Mawrth
(yn ystod tymhorau'r ysgol)

Cyflog: £3.98 yr awr

Profiad o weithio gyda
chyfrifiaduwr yn hanfodol.

Ceisiadau, trwy lythyr, i'r
brifathrawes erbyn dydd

Gwener, Mehefin 11fed, 1993

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Erw Wen.
Ffôn: C'fon. 3536

Gwasanaethau'r Capel: Bydd y canlynol yn arwain ein gwasanaethau yn ystod y mis nesaf — Mai 30 (Sulgwyn): 2 p.m. E. Jones; Mehefin 6: 2 p.m. Albert Jones; 13: 10 a.m. Parchg W. R. Williams; 20: 2 p.m. Parchg D. Ll. Hughes; 27: 2 p.m. Parchg W. R. Williams. Croeso i bawb ymuno mewn addoliad cydenwadol, pentrefol, croesawgar.

Llecyn chwarae: Ceir arian yn amcangyfrifon Cyngor Arfon ar gyfer darparu llecyn chwarae i'r plant lleiaf ger Swyddfa'r Post. Felly gobeithiwn weld datblygiadau cyn diwedd mis Mawrth 1994.

Sioe'r Pentref: Dangoswyd rhaglen y Sioe, sydd i'w chynnal ym mis Awst, ar hysbysfwrdd y pentref ers tro bellach. Gellir cael copi personol o'r rhaglen cyn y dosbarthiad arferol gan y Cadeirydd, Clive James, Hafan, Bryngwina.

Symud tŷ: Pob bendith i Mr a Mrs Richard Jones sydd wedi symud o Stad Erw Wen i'w haelwyd newydd yn Ger y Tŵr, Penrhos.

Tynfa'r Pentref: Enillwyd mis Mai — 1af £40: Heulwen Atkinson; 2il £25: Albert Jones, Erw Wen; 3ydd £15: Alun Roberts, Erw Wen. Diolch i bawb am eu cefnogaeth parhaol a chroeso i'r aelodau newydd yn ardal Penrhos.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646



Yswiriant Car neu
Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni
Roi pris i chi.

TARIAN
6 Stryd Bangor,
Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787

BEICWYR IFANC Y PENTREF



Grand Prix Beiciau Ysgol Feithrin Cwm-y-glo ar gychwyn.

Dydd Sadwrn, Mai 1, ymgasglodd plant yr Ysgol Feithrin gyda'u beiciau i fynd o amgylch buarth yr ysgol am hanner awr. Gwaith caled iawn i'r rhai bach, ond cafwyd hwyll ac fe aeth y diod a'r creision i lawr yn dda ar y diwedd! Drwy'r ymgyrch yma fe gasglwyd £137 at gronfa'r Ysgol Feithrin. Da iawn bawb. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a fu mor barod i noddi'r plant.



Y plant gydag Anti Gwenda, Anti Ann a swyddogion yr Ysgol Feithrin.

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Ysgol Feithrin: Mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu er mwyn codi arian at gost atgyweirio to'r adeilad. Dydd Mawrth a dydd Mercher, Mai 25 a 26, bydd taith gerdded i'r plant bach o gwmpas y pentref. Nos Lun, Mehefin 21, bydd Parti Llestri am 8 o'r gloch yn yr Ysgol Feithrin a bydd croeso cynnes i bawb. Cynhelir y Ffair Haf yn yr Ysgol Feithrin ar nos Wener, Gorffennaf 2il (yn yr iard os bydd y tywydd yn ffafriol) ac fe gynhelir y Cyfarfod Blynnyddol ar nos Fawrth, Mehefin 15fed am 7.30.

Colled: Ym marwolaeth Gwilym Owen Thomas, Penlan, colodd pentref ac ardal Deiniolllen un o'r cymeriadau prin hynny sydd ar ôl yng nghefn gwlad. 'Roedd yn gymwynaswr parod, yn ymgomiwr diddorol a hwyliog a rhyw sirioldeb arbennig o'i gwmpas. Fe'i ganed ym Mron Gynfi, ar ffordd Cerrig y Nyth, yn fab i'r diweddar Mr a Mrs R. O. Thomas. Magodd bump o blant, tri mab a dwy ferch. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn gweithio yn y chwarel ac roedd ganddo wybodaeth eang ohoni ac atgofion melys amdani. Pe gofynnech i Gwil am unrhyw ddigwyddiad yn y chwarel, fe'ch atebai yn un rhigwm — y diwrnod, dyddiad a hyd yn oed yr amser — roedd ganddo gof anhygoel. 'Roedd yn weithiwr caled ac fel y tystiodd y Parchg Canon Glyndwr Williams ddydd ei angladd, prin y gwelech chwi Gwilym wrth ei waith na fyddai wedi torchi ei lewys i ymroi i weithio o ddifri'.

Pan dderbyniodd driniaeth lawfeddygol yn yr hydref roedd yn ffyddiog y byddai wedi gwella'n llwyr ymhen rhyw ychydig fisoedd ac y byddai'n ôl ym Mhenlan i ofalu am ei wartheg, i dorri gwrychoedd ac i agor ffosydd — gorchwylion oedd wrth fodd ei galon. Yn anffodus ni chafodd ei ddymuniad a bu farw'n dawl yn Ysbyty Gwynedd ar nos Sul, Mawrth 28ain, yn 64 oed. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Llandinorwig ar y dydd olaf o Fawrth ar ôl gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys Crist.

Fe gofir am Cwil Penlan yn bennaf am ei sgwrs ddifyr a doniol, ei ffraethineb, ei gof anhgoel a'r annwyldeb direidus hwnnw a berthynai iddo.

Chwith meddwl am Benlan a Gallt y Foel hebddo a bydd ei le yn wag iawn ar aelwyd Cynfi.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen ar nos Lun, Ebrill 19eg, yn y Caban. Y gŵr gwadd oedd Mr R. Haines, Caernarfon, a chafwyd noson ddifyr yn ei gwmni yn sôn am ei deithiau tramor. Diolchwyd iddo gan Mrs Alice Griffith. Cynrychiolwyd y gangen ar y 1af o Fai yng Nghyngor Cenedlaethol Merched y Wawr yn Aberystwyth gan Mrs Margaret Jones a Mrs Margaret Roberts. Rhoddwyd y te gan Mrs Eileen M. Jones, Mrs Glenys Roberts a Mrs Glenys Williams.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Fawrth, Ebrill 6ed, dan lywyddiaeth y Parchg Tegid Roberts. Y gŵr gwadd oedd Mr Hugh

Jones, Rhys y Faenol, a chafwyd noson bleserus yn ei gwmni pan ddarllenodd farddonieth o'i waith ei hun am Ddeiniolllen ac hefyd ei waith buddugol yn Eisteddfod Gwaun Gynfi. Diolchwyd i Mr Jones gan Mrs Rosina Worth. Rhoddwyd y te gan Mrs Gracie Tate a Mrs Gwyneth Price. Enillydd y raffl oedd Mrs Eileen Hughes.

Cynhelir Noson Goffi gan aelodau Undeb y Mamau ar nos Wener, Mehefin 18fed, am 6.30 o'r gloch gyda'r elw tuag at Eglwys Crist Llandinorwig. Pris mynediad yn 30c i oedolion a 15c i blant.

Clwb Elidir: Cafwyd cyfarfod o'r uchod ar Fawrth 23ain dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones, gyda Mr John C. Jones, Swyddog Datblygu o Gyngor yr Henoed Gwynedd, yn ein hannerch. Soniodd am y gwahanol ffyrdd o atal trosedd yn y cartref a'r gwahanol offer sydd ar gael i wneud hynny. Yr oedd yn agoriad llygad i ni i gyd. Rhoddwyd y te gan Mrs Jane Jones, Mrs Hannah J. Thomas a Mrs Laura Williams. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Ellen Williams a Mrs Dolly Brown.

Bu cyfarfod arall ar Ebrill 6ed, dan lywyddiaeth Mrs Megan P. Morris. Cafwyd cwis wedi ei drefnu gan Mrs Sally Lewis. Gwesteion y te oedd Mrs Ellen Williams, Mrs Glenys Williams a Mrs Jane C. Hughes. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Ellen Williams a'r enillydd oedd Mrs Buddug Jones. Dymunwyd gwellhad buan i Miss Lizzie Thomas, Mrs Nancy Thomas a Mrs Jennie Williams wedi cyfnod yn yr ysbyty yn Manceinion. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Annie M. Morris.

Y Seindorf: Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ei llwyddiant yn rown gyn-derfynol cystadleuaeth Pontins yn Southport ddydd Sadwrn y Pasg. Enillwyd yr ail wobwr a bydd hyn yn caniatáu iddynt gystadlu yn y rownd derfynol ym Mhrestatyn ddiwedd mis Hydref.

Cafodd pedwar aelod ifanc eu dewis i Fand Cenedlaethol Cymru y flwyddyn hon eto. Llongyfarchwn Siân Griffiths, Euros Williams, Martin Williams ac Eilir Williams ar eu llwyddiant.

Nos Wener, Mai 14eg, cynhaliwyd y Cyngor ddyddol yn Ysgol Llanrug. Yn cymryd rhan gyda'r Seindorf roedd Côr Meibion Dyffryn Peris a Russell Gray, unawdydd cornet o fand enwog Leyland. Cafwyd noson lwyddiannus iawn a dymunwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Diolchiadau:

Dymuna teulu Gwilym a theulu Cynfi ddiolch yn gynnes iawn i bawb a fu mor garedig wrthyn yn eu profedigaeth o golli tad, taid a ffrind annwyl. Diolch am bob arwydd o gydymdeimlad, a fu'n gymorth mawr iddynt yn eu colled.

Dymuna Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, ddiolch i'w theulu, ei pherthnasau a'i chyfeillion am y cardiau, ymweliadau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ym Manceinion ac yn Ysbyty Gwynedd, ac yna ar ôl dod adref.

Gwerthfawrogrir caredigrwydd pawb yn fawr iawn.

Yr Ysgol Sul Unedig: Yng Nghymanfa Dosbarth Padarn a gynhaliwyd ym Mrynrefail ar Fai 2il, cafodd amryw o blant yr Ysgol Sul wobwr am ddysgu'r Maes Llafur. Llongyfarchiadau i'r canlynol: Gwenllian Owen, Emma Lovell, Michelle Jones, Lola Th. Jones, Ffion Owen, Bedwyn Gwyn Parri, Nidian Huws, David Lewis, Gethin James, Ffion Th. Jones, Ynyr Gwyn Parri, Donna Lewis, Heledd Bryn Parri, Mathew Barlow, Ceirion Owen, Robin Glyn, Gethin Jones, Sara Barlow, Urien Huws, Alaw Mari Huws, Gethin Williams, Beverley Lewis. Gwobrwywyd Mrs Elsie Davies hefyd.

Clwb Pêl-droed Deiniolllen — sbio o'r ochr —



Os yn trafod Clwb Pêl-droed Deiniolllen, mae'n amhosib peidio rhoi sylw i'r cefnogwyr. Mae cefnogwyr y tîm wedi bod yn rhan bwysig o bawniau Sadwrn ers sawl tymor, a wedi bod yn destun cenfigen i nifer fawr o glybiau eraill.

Mae'r Clwb wedi cael cryn lwyddiant ers sawl tymor belach, er gwaetha'r rhagfarn yn eu herbyn, ac yn dal i gryfhau bob blwyddyn. Gyda'r cae pêl-droed bron a bod yn barod yn Neiniolllen, mae pennod newydd, lwyddiannus gobeithio, ar fin cychwyn i'r Clwb.

Fel un sydd wedi dilyn pêl-droed mewn nifer o wledydd gwahanol, mae'n rhaid dweud fod Clwb Deiniolllen yn arbennig iawn. Mae'r gefnogaeth yn sylweddol a chyson i glwb bychan fel yma, ac mae'r gefnogaeth yma wedi llenwi coffrau

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLLEN Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensinywyr, myfyrwyr a phlant ysgol

nifer o glybiau na fuasai'n cael llond dwrn i wyllo fel arfer. Mae gweld bws Ieuan Williams yn cyrraedd pentrefi'r ardal yn cario'r cefnogwyr, yn gwneud i sawl clwb rwbio'i dwylo.

Er gwaethaf ymdrechion rhai pobl i roi enw drwg i'r Clwb, y cefnogwyr, a'r pentref, mae eu cenfigen yn methu, a'r Clwb yn dal i lwyddo. Yn swyddogol, ail oedd Deiniolllen yn y gynghrair, ond mae llawer yn meddwl mai Deiniolllen oedd i fod yn gyntaf, a bod y gynghrair wedi methu â chosbi rhai clybiau yn llymach!

Ond mae'r tymor nesaf i ddod, a'r amser yma flwyddyn nesaf, fe fydd yr Eco yn llongyfarch Deiniolllen am guro'r gynghrair, gyda'r nifer fawr o gefnogaeth yn dal i droi i fyny, a'r Clwb yn mynd o nerth i nerth.

GLYN LLEWELYN GRUFFUDD

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn 1/5/93 — £35: R. Williams, 23 Dôl Elidir (66); £25: M. Hughes, Stryd Goodman (28); £15: A. Jones, Gwesty Dolbadarn (73); £10: E. Jones, Coed y Ddôl (35); £5: Dr G. Williams, Preswylfa (30).

Capel Coch: Yn ystod Cymanfa dosbarth Padarn a gynhaliwyd ym Mrynrefail ar Fai 2, derbyniodd rhai o blant yr Ysgol Sul wobwr am lwyddo yn yr arholiad llafar. Da iawn chi, Carwyn, Ian, Gruffudd, Dafydd Evans, Michelle, Sioned, Rhiannon, Carys, Gethin Tudur, Llifon, Elin, Gethin Sion, Iwan, Dylan, Dafydd Sion, Bethan, Manon, Marc a Chris.

Bydd trip Ysgol Sul Capel Coch yn mynd i Wersyll Butlins eleni, ddydd Sadwrn, Mehefin 26. Gobeithio cawn ni dywydd braf a digon o hwyl.

Roedd dau dîm pêl-droed o'r Ysgol Sul yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Ysgolion Sul Arfon a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Arfon ar Fai 14. Llwyddodd y bechgyn hyna i gyrraedd rownd derfynol y noson heb ildio gôl o gwbl mewn pedair gêm; cyfartal oedd y sgôr yn y rownd derfynol, ond yn anffodus colli a wnaeth yr hogiau o un gôl wedi amser ychwanegol. Aelodau'r garfan oedd Chris, Gareth, Marc, Ifan, Rory, Alwyn, Owain, Rhys, Dafydd, Idwal, Neville a Martin.

Cymorth Cristnogol: Cynhaliwyd oedfa arbennig yn festri Capel Coch ar Fai 18, i ddathlu Wythnos Cymorth Cristnogol. Roedd cynrychiolwyr y capeli ac eglwys Sant Padarn yn cymryd rhan ynddi. Cafwyd anerchiad gan Mrs Lis Perkins, trefnydd Cymorth Cristnogol yn y gogledd. Gwnaed casgliad o ddrws i ddrws yn y pentref yn ystod yr wythnos.

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas ar nos Iau, Mai 13eg, o dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones. Arweinwyd yr aelodau gyda'r gweddïau agoriadol gan Mr Ralph Jones. Croesawyd y siaradwraig wadd, Miss Alice Williams i'n plith a chafwyd noson arbennig o ddifyr yn ei chwmni hynaws. Adroddodd beth o'i hanes hi a'i chydymaith yn mynd ar daith o gwmpas y byd, cychwyn o Frynrefail i Hong Kong, Singapore, Awstralia, Seland Newydd, Hawaii i'r America ac yn ôl gartref i Gymru. Daeth y noson bleserus i ben yn rhy

fuan i'r aelodau a oedd yn amlwg yn mwynhau clywed am yr helyntion. Cafwyd y baned arferol gan Mrs Audrey Evans a Mrs Muriel Morris, a'r anrheg a enillwyd gan Mrs Kathleen Williams. Diolchwyd iddynt hwy ac i bawb gymerodd ran gan y Parchg Gwynfor Williams.

Diolch: Dymuna Mr Owen Jones, 9 Maes Padarn, a'i chwaer Mrs Besie Owen, 52 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w ffrindiau a'u cymdogion am eu caredigrwydd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Côr Meibion Dyffryn Peris: Cafwyd noson ddifyr iawn yng Ngwesty Dolbadarn nos Sadwrn, Ebrill 17, yng nghwmni Vernon a Gwynfor. Roedd y ddau mewn hwyliu da, ac yn amlwg yn mwynhau cwmpeini'r 'gogs'. Trefnwyd raffl gan Roy a Ted a'r enillwyr oedd: 1, Roy Griffith; 2, Tecwyn; 3, Goronwy; 4, Gwen; 5, Gwilym; 6, Mrs Jones; 7, Gwilym; 8, Will Harries; 9, Ted Mor; 10, Margaret. Trefnwyd y noson gan Elwyn, ac ef hefyd oedd arweinydd y noson.

Mae'r côr yn dal i fod yn brysyr iawn. Nos Wener, Ebrill 30, buont yn cynnal Noson Lawen yng Ngaerwen, Ynys Môn, er mwyn codi arian i'r ysgol leol. Mae gan yr hogia o leiaf ddeg cyhoeddiad i'w cadw cyn diwedd Gorffennaf.

Roedd Eglwys Sant Padarn bron iawn yn llawn ar nos Sadwrn, 1 Mai. Cafwyd noson i'w chofio yng nghwmni Côr Meibion Caernarfon (sydd erbyn hyn bron cystal â Chôr Meibion Dyffryn Peris!), Hogia'r Wyddfa ac Oliver Sammons. Roedd Hogia'r Wyddfa yn canu cystal ag y buo nhw erioedac Oliver Sammons — wel, gwyn ei fyd o, roedd pawb wedi gwirioni gyda'i lais swynol.

Gobeithir cael ychwaneg o gyngherddau fel hyn yn y dyfodol agos. Mae ein dyled yn fawr iawn i Elwyn am drefnu y nosweithiau hyn. Hon oedd noson olaf y gweithgareddau presennol. Dymuna'r Côr ddiolch o galon i bawb, o bell ac agos, am y gefnogaeth a gobeithiwn y bydd tymor y gaeaf mor llwyddiannus. Diolch yn fawr iawn i bawb.

G. LEWIS

CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR

MEDAL AUR MATHEW

Ym Mhencampwriaeth Gymnasteg Ysgolion Cynradd Gwynedd, a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y Coleg Normal, enillodd Mathew Pike, 2 Bryn Hyfryd, Llanberis, y fedal aur yn y gystadleuaeth i fechgyn profiadol. O gofio mai 7 oed yw Mathew roedd hon yn gamp go fawr. Mae Mathew yn aelod o Glwb Gymnasteg Caernarfon. Ei dad, Mr John Pike, sy'n cynnal dosbarthiadau gymnasteg yn Ysgol Brynrefail ar brynawn Gwener. Roedd wyth arall o blant y dosbarth hwnnw, o ysgolion Dolbadarn, Llanrug a Phenisarwaun yn cystadlu ym Mangor hefyd. Llongyfarchiadau i Mathew ar ei lwyddiant.



Rhai o aelodau dosbarth Gymnasteg Mr John Pike a fu yn cystadlu ym Mangor. Daw pump o'r saith a welir yn y llun o Ysgol Dolbadarn. O'r chwith, yn y cefn: Chris (ysgol Penisarwaun) a Jemma Watterton. Yn y blaen: Mathew, Jemma Chong, Dafydd, Lucy (ysgol Llanrug) a Katherine. Yr oedd Erin a Cennin o ysgol Penisarwaun wedi mynd adref cyn tynnu'r llun!

Ysgol Dolbadarn: Y mae'r Ysgol erbyn hyn yn gweithredu cynllun sy'n cynnig llefrith i'r plant bob dydd. Cafodd y rhieni gyfle i drafod gwaith eu plant gyda'r athrawon ar Fai 4. Cafodd dosbarth Mr Williams fynd i Blas Tan-y-bwlch ac i Barc Padarn yn ddiweddar er mwyn gwneud gwaith maes yn astudio gwahanol fathau o goed. Aeth dosbarth Mrs Roberts a Mrs Brookes i weld Gorsaf Dân Llanberis ar Fai 17. Cawsant groeso mawr yno gan y swyddogion.

Trefnwyd eu bod hyd yn oed yn gweld y dynion yn diffodd car oedd wedi cael ei roi ar dân. Roedd y plant wedi mwynhau'r ymweliad yn fawr iawn. Diolch am gefnogaeth yr Orsaf Dân i'r Ysgol bob amser. Bu dosbarth Mr ap Elwyn yn aros yng Nghanolfan Rhyd-ddu am wythnos. Roedd pawb wedi byhafiaio'n dda a neb efo gormod o hiraeth am gartref! Ar Fai 19 daeth Mr Len Jones i'r Ysgol i dynnu lluniau'r plant.



Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Wythnos yn Rhyd-ddu gan rai o blant Ysgol Dolbadarn, Llanberis

Dydd Mawrth, Mai 11

Pan gyrhaeddai Rhyd-ddu roeddwn wedi cynhyrfu. Pan aethom i mewn i'r ysgol aethom ati i ddadbacio. Ar ôl dadbacio aethom am dro i Chwarel Glanrafon.

Pan gyrhaeddasom y top, roeddwn yn falch o weld y twll chwarel. Ond un peth doeddwn i ddim yn hoffi oedd bod rhaid cerdded yr holl ffordd yn ôl.

Wedi cyrraedd yn ôl i'r ysgol cawsom lond bol o fwyd cynnes a diod. Wedyn cawsom amser chwarae am tua hanner awr. Wedyn wnaethom weithio tan tua naw ac wedyn cawsom ddiod poeth cyn mynd i'r gwely. CHRIS CARR

Dydd Mercher, Mai 12

Ar yr ail ddiwrnod aethom i Sygyn, y gloddfa gof. Ar ôl dod o'r gloddfa roeddem yn cyfarfod ag Anita Long a chael ein rhannu yn dri grŵp, ac wedyn yn cerdded dros fynydd Sygyn i lawr drwy Cwmbychan at bont Aberglaslyn, ac ar draws y bont i le o'r enw Nantmor. Cawsom beiriant caset i bob grŵp a chwestiynau i'w hateb. Roeddem yn gorfod pwyso 'Play' ar y caset a gwranddo ar gyfarwyddiadau oedd Anita Long wedi eu gwneud i ni. Hefyd gwelsom fedd Gelert. CHRIS ALLSUP

Pawb yn barod i fynd adref!



Dim byd gwell na chinio yn yr awyr iach.

Dydd Iau, Mai 13

Heddiw aethom am dro i ben draw llyn Cwellyn ac i fyny at lyn y Dywarchen. Ffeindiodd David ac Alun benglog dafad. 'Ar ôl mynd yn ôl i'r ysgol bydd rhaid i ni sgwennu stori arswyd am y penglog yma,' meddai Mrs Roberts.

Pan aethom ar y lôn mi ddechreuodd hi fwrw'n drwm.

Ew, pan gyrhaeddais i Rhyd-ddu yr oeddwn i yn wlyb ofnadwy ac yn teimlo yn flinedig.

Felly pan ddaeth hi yn amser gwely mi gysgais i mewn chwinciad.

Dydd Gwener, Mai 14

Ar ôl brecwast amser rhydd i bacio a chlirio ein hystafelloedd gwely. Wedyn aeth pawb i'r neuadd i ddisgwyl y bws. Mewn tua awr daeth y bws ac yr oeddyn ar ein ffordd adref. JEMMA ORLIK

Atgofion melyn a chwerw

Y peth gora wnes i oedd dechrau gwranddo ar dâp ym Mhont Aberglaslyn a trio cael hyd i'n ffordd at Beddgelert.

Y peth gwaethaf wnes i oedd cerdded gymaint dydd Iau. Cerddasom trwy'r goedwig, i fyny llwybr serth, wedyn rownd mynydd, i fyny ffordd fawr, heibio Llyn y Dywarchen, ac yn ôl i Rhyd-ddu.

Y peth oeddwn i ddim yn feindio oedd mynd i waith copr Sygyn. Toeddwn i ddim yn ei hoffi fo llawer am fod yna rywun yn siarad bob munud, a doeddach chi ddim yn gwybod beth oedd o yn ddweud.

Fy mwyd gorau i oedd cŵn poeth, a cwstard oer i bwddin.

Y peth anodda i'w wneud oedd cysgu. Toedd Ifan ddim yn cau ei geg, ac Alun a David ddim yn stopio mwydro. GARETH



CHIROPDIST

Gwasanaeth yn eich Cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon

675754

Geni ♥ Bedyddio ♥ Iŵed ♥ Priodas ♥
Dywedón Dyddion
Arlodau Llywodraethol
Ymddiriedolaeth

✱ Achlgyr arbennig? ✱
✱ Annheg unigryw? ✱
Beth am un o sampleri

PWYTHAU CAIN

✱ Cynllunir pob samplwr yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

✱ Hefyd gwniadwaith o bob math gwned dillad, newidiadau, ffenni, a.y.y.b.

✱ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd ♥ Darnau o farddoniaeth

CARPEDI GLÂN

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 650291

hefyd ail-osod carpedi

CARTREF HENOED



Caernarfon

(0286) 674652

AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM

FFENESTRI CELTAIDD

(CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL

★ Gwydro Dwbl a Sengl

★ Gwaith Domestig a Chontract

★ Gwarant 10 mlynedd

★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim

CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160



CEIR CYMRU

GAREJ MINFFORDD, BETHEL

Ffôn: 670451

Mae Garej Minffordd bellach yn rhan o gwmni garej teuluol sydd wedi ei sefydlu ers deugain mlynedd. Yma mae gennym weithdy trwsio, bae MOT, a gweithdy peintio ac atgyweirio cyrff ceir. Rydym yn cynnig y gwasanaeth gorau am y prisiau isaf posibl ac yn barod i roi pris ar unrhyw waith cyn ei ddechrau! Mae car benthyg i'w gael am ddim bob amser!

Yma, ac yn y Gaerwen, Môn, mae gennym y dewis gorau, a'r rhataf posib, o geir ail-law safonol. Y llynedd gwerthodd ein cwmni dros 1,000 o geir ail-law — record ymysg y goreuon. Llwyddwyd i wneud hynny am elw bychan a thrwy hysbyseb o ganmoliaeth o'r naill i'r llall (nid trwy hysbysebu drud mewn papurau newydd).

Rydym yn llwyddo i fynd o nerth i nerth ac yn eich sicrhau chwi ein cwsmeriaid na fedrwcw ein curo am bris na safon.

CEIR CYMRU

CWMNI CYMREIG YN EDRYCH I'R DYFODOL

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Hwyl Haf '93: Eisoes mae cryn dipyn o edrych ymlaen at gynnal Hwyl Haf eto eleni. Fe'i cynhelir ar **brynhawn dydd Sadwrn, Gorffennaf 3, yn yr Allt Ddu o 1.30 ymlaen.** Fel pob blwyddyn bydd sawl gweithgaredd wedi ei drefnu ar eich cyfer. Cynhelir cystadleuaeth gwisg ffansi, felly, cofiwch wisgo i fyny er mwyn i ni gael tipyn o hwyl. Bydd y castell neidio ar gael yn ogystal â hufen iâ, paned o de, ac ati. Tâl mynediad fydd 50c i oedolion a 20c i blant. Os bydd y tywydd yn anffafriol fe'i cynhelir yn y Ganolfan — er mawr obeithiwn na fydd angen hynny ac y cawn ddiwrnod o dywydd braf. Os dymunwch gyfrannu cacennau, llysiau, ac ati, ar gyfer eu gwerthu yn yr Hwyl Haf yna fe fydd y Ganolfan ar agor i'w derbyn ar nos Wener, Gorffennaf 2il rhwng 6 a 7 o'r gloch. Diolch yn fawr i chwi.

Cludiant Cyhoeddus: Syfrdanwyd pawb yn y pentref pan benderfynodd cwmnïau bysus Crosville ac Arvonnia i dorri eu gwasanaethau boreol — rhwng 9 a 12 o'r gloch — o Ddinorwig i Gaernarfon. Golyga hyn nad oes gwasanaeth bysus o gwbl rhwng yr amseroedd hynny ac nid oes modd cael bws i fynd i nôl pensiwn neu i ymweld â'r meddyg yn Neiniolen yn ystod y boreau. Mae'r Cyngorydd Glyn Tomos wedi gohebu â'r ddau gwmni yn y gobaith o'u cael i ail feddwl. Yn y cyfamser fe lwyddodd y Cyngorwyr Pat Larsen a Glyn Tomos i gael Cyngor Sir Gwynedd i drefnu bod cwmni leuan Williams yn darparu dau wasanaeth ychwanegol yn y boreau fel a ganlyn: o Ddeiniolen am 10.30 ac 11.00; o Ddinorwig am 10.38 ac 11.08. Er ein bod yn ddiolchgar am y trefniant hwn teimla'r pentrefwyr eu bod wedi eu hamddifadu o wasanaeth bysus boreol o Ddinorwig i Gaernarfon, gan mai gwasanaeth i Fangor y mae bysiau leuan Williams yn ei gynnig. Gobeithiwn yn fawr iawn y bydd cwmnïau Crosville ac Arvonnia yn ail ystyried y sefyllfa. Anodd iawn yw derbyn bod cynnal taith o bum munud o Ddeiniolen i Ddinorwig yn peri cymaint o straen ariannol ar y ddau gwmni.

Gwasanaeth Undebol: Cynhaliwyd y Gwasanaeth, i ddathlu Wythnos Cymorth Cristnogol, yng Nghapel Sardis ar brynhawn Sul, Mai 16. Arweinwyd gan y Deon Gwlad, y

Parchg Ganon Richard Ll. Owen a chafwyd pregeth rymus ac amserol gan y Parchg Olaf Davies. Cafwyd darlleniadau gan Miss Morfudd Jones a Glyn Tomos a'r organydd oedd Mrs Lona B. Lewis. Casglwyd y swm o £71 tuag at waith Cymorth Cristnogol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Llywyddiant y Plant: Yng Nghymanfa'r Presbyteriaid, a gynhaliwyd yng Nghapel Brynrefail ar 2il o Fai, cafodd y plant canlynol o Ysgol Sul Capel Dinorwig ganmoliaeth uchel am eu gwaith yn yr arholiad llafar — dan 4: Rhian Bryn Morris, Tŷ Capel, a Sioned Mair Phillips, 12 Maes Eilian; dan 5: Donna Louise Phillips, 12 Maes Eilian; dan 6: Ceri Bryn Morris, Tŷ Capel. Da iawn blant — daliwch ati.

Capel Sardis: Cynhelir Cyfarfod Pregethu ar ddydd Sul, Mai 30 (Y Sulgwyn). Y prgethwr gwadd eleni fydd y Parchg Vincent Watkins, Treforys. Bydd yr oedfaon am 10.00, 2.00 a 5.30.

Dymuniadau Da: Rydym yn falch o ddeall fod Miss Margaret Jane Jones, Foel, wedi dod adref o'r ysbyty; ac hefyd Eifion Griffith, Foel Cottage. Croeso nôl hefyd i Dylan. Yr un yw ein dymuniadau i Miss Lizzie Thomas, Llidiart y Clo, sydd yn dal yn yr ysbyty a dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan iddi ac i bawb arall o'r pentref sydd heb fod yn mwynhau iechyd rhy dda ar hyn o bryd.

Llongyfarchiadau i Sara Wood, Fron Heulog, ar ennill Gradd 8 (piano) yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Eglwys St. Mair: Cynhelir yr Ŵyl Bregethu ar brynhawn dydd Sul, Mehefin 20fed am 3.30 o'r gloch (sylwer ar yr amser newydd). Y pregethwr gwadd fydd y Parchg Griff Jones, Caplan Ysbyty Gwynedd. Estynnir croeso cynnes i bob enwad i ymuno yn y gwasanaeth hwn.

Ar nos Fercher, Mai 12fed, cynhaliwyd cyfarfod i ystyried cyflwr adeilad yr Eglwys, sydd wedi dirywio yn ddiweddar. Deallwn fod angen gwario cryn dipyn o arian i adfer y sefyllfa ac na fyddai modd i'r aelodau godi y swm angenrheidiol. Mae'n sefyllfa drist iawn — sefyllfa sy'n wynebu addoldai pob enwad y dyddiau hyn. Fe ystyrir y sefyllfa gan aelodau o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig mewn cyfarfod ar nos Fawrth, Mehefin 1af, yn Eglwys Crist, Llandinorwig.

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Diolch: Dymuna Mrs Closs Parry, Bryniol, ddiolch o galon i'w theulu a'i chymdogion am y blodau, cardiau a'r holl anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar ddathliad ei phen-blwydd yn 90 oed ar Ebrill 23ain.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Geraint ac Elen George, Sŵn yr Engan, ar enedigaeth eu merch Anna Gwennlian, a chwaer fach i Rhian.

Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Padarn: Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Brynrefail ddydd Sul, Mai 2il a daeth cynulliaidau da ynghyd i'r ddau gyfarfod. Bu cydweithio brwd a hapus ymhlith nifer helaeth o aelodau'r eglwys i groesawu a darparu ar gyfer Ysgolion Sul y Dosbarth. Yr arweinydd cerddorol oedd Mr Robin Jones, Bethel, a'r organydd oedd Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail. Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir, a phlant Ysgol Sul Brynrefail ynghyd â'u hathrawesau, Mrs Mair Davies a Mrs Dwynwen Williams, oedd yn gyfrifol am y rhannau arweiniol. Roedd gwasanaeth yr hwyr yng ngofal y gweinidog, y Parchg John Morris, a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mr Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth, ynghyd â'r cydadroddwyr Mrs Jennie Hughes, Mrs Jennie Roberts, Mrs Betty Owen a Miss Annie May Williams.

Gwobrwywyd y canlynol o aelodau Ysgol Sul Brynrefail am eu gwaith ym maes yr arholiad llafar — dan 4: Ifan Bedwyr Owen; dan 5: Dylan Wyn Davies a Bethan Mai Owen; dan 6: Ruth Angharad Owen; dan 8: Rhian Elizabeth Ann Owen ac Amy Lynne Lambert; dan 50: Miss Lowri Prys Roberts; dros 50: Mr R. W. Evans a Miss A. M. Williams; parti cydadrodd dros 50: Parti Brynrefail.

Cymdeithas y Chwiorydd: Cyfarfu'r Gymdeithas yn y Ffestri, nos lau, Mai 13eg, dan lywyddiaeth Mrs Jennie Roberts, 2 Ffrwd Madog, a daeth cynulliad da ynghyd. Roedd y defosiwn yng ngofal Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, a seiliodd ei myfyrdod ar Salm y Bugail. Roedd gweddill y cyfarfod yng ngofal dwy o aelodau'r Gymdeithas yn adrodd eu profiadau ar wyliau tramor.

Mwynhawyd i ddechrau sgwrs gan Miss Lowri Prys Roberts ar ei hymweliad â'r Almaen yn ei swyddogaeth fel cyfeilydd Côr Meibion Dinas Bangor; ac yn dilyn lluniaeth — a baratowyd gan Mrs Jennie Maxwell a Mrs Jennie Roberts — cafwyd adroddiad lliwgar o'i hymweliad â Chanada gan Mrs Verna Jones. Diolchwyd i'r siaradwyr gan Miss A. M. Williams a Mrs Betty Owen ac am y lluniaeth gan Mrs Jennie Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos lau, Mehefin 3ydd, pryd y disgwylir Miss Iola Llywelyn Griffith i annerch. Dan nawdd y Gymdeithas hefyd fe drefnir Ffair Haf maes o law. Gwylwch am y dyddiad.

Cymdeithas y Beiblau

Cynhelir cyfarfodydd undebol o'r Gymdeithas uchod yng Nghapel Brynrefail, ddydd Sul, 27 Mehefin, am 2 a 6 o'r gloch.

Gobeithio fod plant y gwahanol eglwysi yn paratoi ar gyfer y Gwasanaeth Plant a gynhelir yn y prynhawn o dan arweiniad Mr Glyn Tomos, Dinorwig.

Bydd y Gymanfa Ganu am 6 o'r gloch, dan arweiniad Mr James Griffith, Bangor, a Chôr Meibion Dinas Bangor yn cymryd rhan yn ystod y cyfarfod. Y llywydd fydd y Parchg John Morris. Dewch yn llu i gefnogi'r Gymdeithas.

Y DDRAWA YM MRYNREFAIL



Hen Ddarlun: Fel gohebydd y pentref, derbyniais y darlun hwn trwy garedigrwydd Mrs Gwyneth Lloyd, Caernarfon. Yn ei llythyr ataf dywed Mrs Lloyd iddi gael meddiant o'r llun drwy law Mrs Falmi Williams, merch y diweddar Mr D. R. Griffith a fu'n athro mawr ei barch yn yr hen Ysgol Ramadeg ym Mrynrefail ac yn trigo'r

pryd hynny yn y pentref. Mae'n amlwg mai un o gwmnïau drama enwog y pentref yw'r llun ac fe'i dyddir tua 1926-28. Yn anffodus, nid yw'n pentrefwraig hynaf, Mrs M. Closs Parry, yn sicr o'r wynebau. Tybed a all unrhyw un o ddisgynyddion y cymeriadau ein helpu?

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Marwolaeth: Ar Fai 11eg bu farw Katie Williams, Morawel. Bu'n aelod o Gapel y Ceunant ac yn gwasanaethu fel organyddes yno, ac yna yng Nghapel Hermon, Llanrug. Bu hefyd yn help mawr yng Nghapel Tan-y-Coed. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Llanrug ar Fai 13eg. Cydymdeimlwn a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Diolch: Dymuna Ceinwen Roberts, Ael-y-Bryn, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd, y cardiau, anrhegion a'r ymweliadau, tra bu yn yr ysbyty yn cael triniaeth. Diolch yn fawr iawn.


DRAENOG



Glywsoch chi am y fam a welodd lun ei mab yng nghanol hogia Llanber yn yr Eco diwethaf? Roedd wedi gwirioni gweld llun yr hogyn yn y papur. 'Ond fedra i ddim cofio dy wallt di fel'na chwaith, ngwas del i.' Doedd hynny ddim yn syndod o gofio bod y fam wedi camgymryd ei mab ei hun am un arall o'r hogia yn y llun.

CYFARFOD BLYNYDDOL YR ECO MEHEFIN 9fed am 7 o'r gloch

CROESAIR MEHEFIN



ATEBION

CROESAIR MAI



AR DRAWS

1. Clywir un o'r Llwyncoed (6)
7. Trylwyr a da (8)
8. Term y môr neu farw (4)
10. Nid yw'n enw cywir (6)
11. Llwg (6)
14. Acer i rai (3)
16. Y fenyw wedi'i threiglo (5)
17. Un sy'n peri salwch (4)
19. Enghraifft o fwlio (5)
21. Cuddia'r haul weithiau (5)
22. Stori'r 'hwyaden hyll' (5)
23. Mwy na hoffter (4)
26. Hepian (5)
28. Tacius neu '___ lol' (3)
29. Cynrychiolydd modern (6)
30. Canu pedwar llais (6)
31. Ifanc y rhieni (4)
32. Astudiaeth o'r môr (8)
33. Tros y llygad (6)

I LAWR

1. Ceir yn chwyrlio heibio'n barhaus (6)
2. Cyrlio'r gwallt un waith (2,4)
3. Arwr llyfr Tegla (4)
4. Heb ystyried (7)
5. Stad Ddiwydiannol y Co (5)
6. Y term am ffodus wedi'i ad-drefnu i gwrw carlam hwyrach (5)
8. Stêm (4)
9. Beth y'm gelwir (3)
12. Rhif (3)
13. Ymlusgiad ych a fi (5)
15. Rhai sy'n siarad yr iaith (5)
18. Haul trwy'r diferion (5)
19. Gwn 'stalwm (3)
20. Bâd benywaidd (3)
21. Dau ran o'r corff dynol (4,3)
22. Math o stôf twymo dŵr (3)
23. Arweinydd y daith wylliau (6)
24. Yn sicrhau na fentwrn (4)
25. Ceir mwy nag ___ rhwng lloriau ysbytai (2,4)
26. Lle bu Moses (5)
27. Gwyn neu frown (5)
28. Pen neu degan chwip 'stalwm (3)
30. Cwyno a ffræo'n gyson (4)

ATEBION CROESAIR MIS MAI

'Mae'n rhaid fod croesair y mis diwethaf yn un hawdd,' meddai Nêst, y wraig.

'Diolch am hynny!' meddai'r postmon, 'Mae pawb eisiau bywi!'

Erbyn hyn bu ichwi gasglu fod degau lawer wedi cystadlu'r mis hwn gyda chryn nifer ohonynt yn gywir hefyd. Ond i **OSIAN HUW, Sŵn-y-Môr, Pistyll, Pwllheli**, y dylid anfon y wobr y tro hwn ond teg yw nodi i ddwsin arall fod yn gywir. Yna, un camgymeriad yn unig (ond gwahanol rai) oedd gan y gweddill. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch a chawn weld beth a wnewch o'r un a welir y mis yma. Anfonwch neu danfonwch eich atebion i sylw Ifor G. Efans, Afon Goch, Deiniolen, i gyrraedd erbyn dydd Gwener, 18fed Mehefin fan hwyraf. Pensi a rhwbiwr a charfu pen amdani!

AKA SECURITY SERVICE

Y Dderwen
Parc y Wern
BETHEL
Ffôn:(0286)
670608



Rhag i hwn
alw, galwch
chi ni rŵan

- ★ Larwms
- ★ Goleuadau
- ★ Cloeau
- ★ Pob math o waith diogelwch

Dyddiadur y Mis

MEHEFIN

9 Mercher. Llanrug: Plaid Cymru — Cyfarfod Blynnyddol am 7.30 o'r gloch.

11 Gwener. Bethel: Plaid Cymru — Helfa Drysor, am 6.30 o'r gloch tu allan i'r Neuadd.

15 Mawrth. Deiniolen: Cyfarfod Blynnyddol yr Ysgol Feithrin am 7.30 o'r gloch.

18 Gwener. Deiniolen: Undeb y Mamau — Noson Goffi am 6.30 o'r gloch.

19 Sadwrn. Waunfawr: Barbeciw yr Antur am 6 o'r gloch yng Ngerddi'r Antur.

20 Sul. Dinorwig: Gŵyl Bregethu Eglwys Sant Mair am 3.30 o'r gloch.

21 Llun. Deiniolen: Parti Llesti gan yr Ysgol Feithrin am 8 o'r gloch. **Deiniolen:** Merched y Wawr — Cyfarfod Blynnyddol yn Y Caban.

25 Gwener. Penisarwaun: Eisteddfod Bentre am 6 o'r gloch yn y Neuadd.

26 Sadwrn. Bethel: Trip yr Ysgol Sul i Butlins. **Llanrug:** Trip yr Ysgol Sul i Butlins. **Llanberis:** Trip Capel Coch i Butlins.

27 Sul. Brynrefail: Cyfarfod y Plant o dan nawdd Cymdeithas y Beiblau Cylch Deiniolen am 2 o'r gloch. Cymnafa Ganu am 6 o'r gloch.

29 Mawrth. Penisarwaun: Sêl Cist Car ar Fuarth yr Ysgol am 6.30 o'r gloch.

GORFFENNAF

1 Iau. Bethel: Plygu'r Eco am 6 o'r gloch yn y Neuadd.

2 Gwener. Deiniolen: Fair Haf yr Ysgol Feithrin.

3 Sadwrn. Dinorwig: Hwyl Haf '93 o 1.30 ymlaen yn Yr Allt Ddu.


RHODDION

£5: Elwyn Searell Jones, Dwyfor, Nant Peris; Teulu Buarth Newydd, Dinorwig; Teulu 10 Bro Elidir, Dinorwig; Mrs Elen Williams, 2 Bryntirion, Penisarwaun; Mrs Brenda Richards, a Jonathan a Ken, Llys Helyg, Penisarwaun; Mrs Margaret Closs-Parry, Brynid, Brynrefail; Teulu y diweddar Gwilym O. Thomas, Deiniolen; Y Cynghorydd Pat Larsen, Penisarwaun.

£3.50: Mrs A. Sidebotham, Stockport; Mr E. Gwyrfa Jones, Prestatyn; Miss H. Evans Munro, Corby.

£3: Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, Deiniolen.

£2: Di-enw.



Cafwyd y llun yma yn ffeil yr Eco. Mae wedi ei dynnu ers blwyddyn neu ddwy . . . neu fwy. Un cwestiwn bach felly . . . pryd mae Cyngor Gwynedd yn mynd i drwsio wyneb y ffordd?

FFLAM ERYRI

C.O.R.G.I.

GWASANAETH A GWERTHIANT OFFER NWW

♦ TANNAU ♦ POPDAI

♦ BOILERI ♦ GWRES CANOLOG

Y cyfan wedi eu danfon a'u gosod yn broffesiynol am brisiau rhesymol gyda gwarant llawn.

Rydym yn gwerthu y cyfan sydd ar gael gan Nwy Prydain ac mae prisiau yr offer ar gael dros y ffôn gennym.

Hefyd ar eich cyfer, Tanciau L.P.G. wedi eu gosod heb ddim cost a nwy rhad i roi ynddynt.

ATGYWEIRIADAU, GWASANAETHAU BLYNYDDOL A GWASANAETH DARNAU AR FRYD

(0492) 650013

Perchennog — Geraint Fôn Williams, Glanrafon Eglwysbach, Bae Colwyn, Clwyd LL28 5UD

CHWARAEON

TLWS COFFA ALUN BAYLISS



Emlyn Bayliss yn cyflwyno'r Tlws Coffa i Megan Ellis-Davies.

Yn ddiweddar cyflwynodd Emlyn a Marie Bayliss, Vaynol Arms, Nant Peris, dlws i gynghrair Badminton Arfon/Dwyfor. Rhoddwyd y tlws er cof am eu mab, Alun, a oedd yn aelod o Glwb Badminton Llanberis. Chwaraeir y gemau ar ddull 'handicap' dros nifer o gemau a chwaraeir yn ystod y tymor. I dîm Caernarfon yr aeth y fraint o fod yn enillwyr cyntaf y tlws coffa. Ymhlith aelodau o'r tîm buddugol mae Geraint Williams, Penisarwaun; Megan Ellis-Davies, sy'n athrawes yn Ysgol Brynrefail; a Carys Jones, Waunfawr.

Eira Mai ar y Moelydd

Daeth bron i ddau gant a hanner o redwyr mynydd gorau Prydain i Lanberis ganol fis Mai i gystadlu ym Mhencampwriaeth Rasus Mynydd Prydain. Ras Moel Eilio oedd un o ddwy o Gymru a ddewiswyd eleni yn rhan o gyfres Pencampwriaeth Prydain; (cynhelir yr ail — Ras y Garn, Rhyd-ddu, fis Mehefin). Roedd y ras hefyd yn rhan o Bencampwriaeth Rasus Mynydd Cymru, ac yn rhan o Bencampwriaeth Clwb Rhedwyr Eryri. Digon o waith didoli cystadleuwyr i'r trefnyddion felly!

Yn dilyn stormydd dros nos, roedd copaon pob un o'r moelydd — Eilio, Foel Gron, Foel Goch a Chynghorion — yn drwchus dan eira, a theimlai'r trefnyddion yn ddigon pryderus i siarsio pob rhedwr i gario dillad cynnes ychwanegol, rhag ofn! Yn ffodus, cafwyd egwyl yn y tywydd, a gwynt cryf ar lethrau Moel Eilio oedd yr unig broblem o ran oerni. Cliriodd llawer o'r eira yn ystod y ras, gan adael y ddaear yn wlyb a llithrig iawn. Cafwyd y problemau gwaethaf ar lethrau Moel Cynghorion. Yno, roedd rhedwyr dros eu ferrau mewn eira, a hynny'n arafu hyd yn oed y goreuon. Roedd rhedeg i lawr y llethr serth o gopa Cynghorion i Fwlch Maesgwm yn dipyn o gur pen (ac o gur pen-ôl i amryw), ond bu bron i bawb â chwblhau'r ras.

Ni fu llwyddiant lleol. Mark Croasdale o Ardal y Llnoedd yn Lloegr, a chyn enillydd Ras yr

TÎM DI-GURO



Eleni eto, cafodd tîm dros 30 oed (a rhai dros 40) Bethel dymor llwyddiannus. Chwaraewyd pum

gêm, gan ennill tair ohonynt a chael dwy gêm gyfartal.

Gwelwyd pêl-droed gwefreiddiol ar

Wyddfa, aeth â'r brif wobwr, gan dorri record Colin Donnelly. Nid oedd Colin ei hun yn rhedeg eleni; byddai'r ornest rhyngddo â Mark wedi bod yn ddiddorol. Aeth y prif wobrau i gyd i Loegr, ond daeth Don Williams o Fynydd Llandegai a Chlwb Eryri yn drydydd i ddynion dros 50 oed. Nid oedd y canlyniadau ar gyfer Pencampwriaeth Cymru ar gael pan aeth yr Eco i'r wasg, ond credir fod rhai llwyddiannau lleol, yn enwedig yn yr adran i ddynion hŷn.

MOR AGOS I'R 'BULL'

Boddi wrth ymyl y lan fu hanes tîm dartiau Gors Bach 'A' eleni. Er mai ail oeddent i dîm y Goron Fach yn adran 2 o Gynghrair Caernarfon, byddant yn esgyn i'r brif adran y tymor nesaf. Yn y gynghrair '601' ail oeddent eto, ac ail wedyn yng Nghwpan '501' adran 2 y gynghrair. Y prif chwaraewr eleni oedd Terry Jones a gollodd ond tair gêm yn unig drwy'r tymor.

Bu'r tîm merched yn llwyddiannus hefyd, gan orffen yn ail yn adran 2 y gynghrair. Byddant hwythau hefyd yn y brif adran y tymor nesaf. Trydydd oedd Gors Bach 'B', ac felly mae'n debygol mai aros yn adran 3 fydd eu tynged hwy.

TLWS Y MIS

Ar ddiwedd tymor braidd yn siomedig i glybiau bro'r Eco mae un wedi cael cryn lwyddiant. Yn bendant Deiniolen fu'n denu'r sylw y tymor hwn, ac mae llawer o'r clod i'w pwylgor gweithgar, y cefnogwyr di-gymharol, ond yn bennaf i'w rheolwr JOHN WILLIAMS. Anodd credu mai hwn yw tymor cyntaf John fel rheolwr, wedi yr anaf drwg a gafodd tra'n aelod o glwb Llanrug. Am dymhorau hefyd bu'n gefnwr digyfaddawd i dîm Llanberis. Denodd garfan gadarn i Ddeiniolen, ac efallai fod y ffaith i'w dîm sgorio dros 100 o goliau yn y tymor adlewyrchu ei feddylfryd am y gêm. Mae tipyn o ddatblygiad yn bosib yn Neiniolen yn y tymhorau nesaf, ac rwy'n siŵr y bydd y clwb yn awyddus iawn i'w gadw yno. Yn sicr, bydd rhai clybiau yn siŵr o geisio ei ddeunu o 'gopa'r mynydd'. Oherwydd ei

bendatrwydd a'i onestrwydd mae'n siŵr y bydd nifer o chwaraewyr yn awyddus i chwarae i John a'r clwb.

Rhoddir Tlws mis Mai felly i John Williams yn benodol, ond hefyd yn



John Williams yn derbyn Tlws y Mis oddi wrth reolwr 'llwyddiannus' arall!

anuniongyrchol i glwb Deiniolen a phawb sy'n gysylltiedig â hwy, am dymor a fu'n bendant yn llwyddiannus, ond sydd wedi bod yn gofiadwy.

brydiau, yn enwedig wrth chwarae i lawr yr allt a gyda'r gwynt cryf tu cefn iddynt. Bu'n anodd cadw'r garfan yn hapus — yn enwedig gyda chlybiau'r fro yn eu llygadu. Yn wir, arwyddodd Hywel y gôlgeidwad i Ddeiniolen. Hoffai'r clwb wadu yn bendant fod a wnelo'r ffaith mai eu rheolwr, oedd hefyd yn dyfarnu'r gemau, ddim oll â'u record di-guro.

Gobeithir ehangu gorwelion y tymor nesaf gan fod si bod Llanrug yn ffurfio tîm. Mae sôn hefyd efalli am fynd yn ryngwladol a chael gêm yn yr Ynys Werdd. Hoffai Mr Picton ddiolch i'r hogia am eu hymroddiad, eu cwmni a'r hwyl yn ystod y tymor. Gyda llaw, efalli i chwi weld gôl olaf y tymor gan John Meic yn erbyn y BBC ar 'Match of the Day' — 'lob' (y gôl, nid John) gampus o hanner ffordd. Ie, dyna'r gôl. Cofiwch mai John Meic sgoriodd hi nid Dean Saunders!

TLWS ARALL I'R FRO

Llwyddodd tîm pêl-droed Deiniolen i goroni eu tymor trwy guro Harlech o 4-0, yn rownd derfynol Cwpan Alves. Daeth torf fawr i weld y gêm ar gae Mountain Rangers, ond i bob pwrpas roedd popeth drosodd ar ôl hanner awr.

Sgoriodd Alwyn Williams y gôl gyntaf o fewn deng munud i gychwyn y gêm, ac ychwanegodd Arwel Hughes gôl arall o fewn ychydig funudau.

Tro Gwyndaf Jones, prif sgoriwr eleni, oedd hi nesaf, cyn i Arwel Hughes sgorio 'i ail gôl i'w gwneud hi'n 4-0 cyn diwedd yr hanner cyntaf.

Wedi colli mewn un ffeinal, a dod yn ail agos yn y gynghrair, dyma wobwr roedd yr hogia'n ei haeddu. Llongyfarchiadau i John a'r hogia i



Kevin John Jones, capten Deiniolen, â'r Cwpan Alves.

gyd, a phob lwc iddynt at y tymor nesaf.

ATHLETAU ARFON

Bu nifer o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn llwyddiannus yng nghyfarfod athletau Arfon. Bydd y canlynol yn cystadlu ym mhencampwriaeth Gwynedd: Alun Vaughan (800m a 1500m); Dylan Williams (800m); Arwel Ellis (naid uchel); Ambrose Choy (naid hir); Dylan Williams (naid driphlyg); Arwel Jones (picell); Jonathan Davies (naid

hir a thriphlyg); Lois Dafydd (clwydi); Caitlin Wroe (clwydi); a Manon Williams (200m, 300m, naid hir). Pob hwyl iddynt i gyd.

LLWYDDIANT PÊL-RWYD

Llongyfarchiadau i Eleri Robinson o Fethel, a Rhian Green o Lanrug, ar gael eu dewis i garfannau pêl-rwyd dan 14 oed a than 16 oed Ysgolion Gwynedd.